YR YMOFYNYDD.

Rhif. 21.] MEDI, 1860. [Ail Gyfres.

SEFYLLFA WAREIDDIOL Y CYMRY.

(*Parhad o tudal.* 177.)

Gwasanaeth y Cymry yn Ngwareiddiad y Byd.

Ond nid oes achos i ni fyned mor belled o dref, gan nad yw gwasanaeth y Cymry yn gyfyngedig i wledydd tramor. Mae Lloegr hefyd wedi derbyn llawer iawn o fendithion oddiar ddwylaw cenedl y Cymry. Mae y Gymraeg yn cyfansoddi rhan o iaith ein cymydogion, ac yn ffurfio yr hyn a elwir gan Latham "*the Celtic element in the English Language*:" ac nid yw ei chyfran yn gyfyngedig i'r geiriadaeth yn unig, gan fod, fel y profa William Edwards, dylanwad y Gymraeg yn weledig yn ei grammadeg, ac wedi achosi y gwahaniaeth sydd rhyngddi a'r ieithoedd Ellmynaeg, oddiwrth ba rai y tarddodd ei chyfran Saesonaeg. A chan fod elfen Frythonaidd yn nhrigolion Prydain Fawr, ac elfen Gymreig yn yr iaith Seisonig, mae rhan helaeth o ddylanwad yr iaith hono, ac o ogoniant y bobl Prydeinig, yn ddyledus i genedl y Cymry.

Dylaswn enwi yn gynnarach *Asserius Menevensis*, neu Asser o Fynyw, yr hwn fu farw yn Esgob Sherborne yn O.C. 909. Efe a ysgrifenodd fywgraffiad ei gyfaill mynwesol y Brenin Alffred, yr hwn a'i gwahoddodd o Dy Ddewi i ddyfod yn athraw iddo ef ei hun; ac oni buasai y cofnodiad hwnw ni fuasai gan y Saeson ond brithgof am eu brenin enwocaf. Nid yw yn hysbys yn gyffredin mai Cymro hefyd oedd *Henry o Huntingdon*, un o oreuon yr haneswyr mynachol; ni wyr dysgedigion Lloegr o ba le yr hanodd, na pha bryd y bu farw; ond rhoddir eglurhad ar y ddau ben yn y Croniclau Cymreig:—"O.C. 1162. Ac y bu varw Henri vab Arthur yr ysgolheic goreu o'r Kymre ac a oedd yr un oes ac ef."—*Brut y Saeson*, *Myv. Arch.* II., 570.

Lles anfeidrol i Lloegr, ac i'r byd yn gyffredinol, oedd gosodiad y Tudoriaid ar orsedd Lloegr. Terfynwyd y rhyfeloedd cartrefol trwy hyny. Heb Harri VIII, buasai rhwystriad braidd anorchfygol i'r diwygiad; ac heb Edward VI. a'r Frenines Elizabeth, mae yn lled debyg y buasai sefydliad Protestaniaeth yn yr ynys hon yn cael ei ohirio. Hanasant hwy oddiwrth Owain Tudor o Benmon yn Sir Fôn: ac heb gefnogaeth Syr Rhys ab Thomas, a thrigolion Cymru, nid yw yn debyg y llwyddasai Harri VII. ar faes Bosworth, ac i esgyn gorsedd Prydain. Cymro oedd yr Arglwydd Herbert o Cherbury, un o brif enwogion teyrnasiad Iago I.; ac felly hefyd oedd George Herbert, gweithiau prydyddol yr hwn a berchir eto, ac Inigo Jones, prif adeiladydd oes y Tudoriaid. Gellid dweyd yr un peth am Syr Richard Clough, a Syr Hugh Middleton; y blaenaf o'r ddau a eangodd fasnach y deyrnas a gwleydd tramor; a'r olaf a anrhegodd Caerludd â digon-

edd o ddwfr glân gloew, yr hyn a ddygid ugain milldir o ffordd, pan oedd y trigolion braidd yn newynu o'i eisiau. Yr oedd chwech esgob o darddiad Cymreig yn oes Elizabeth. Gwr o darddiad Cymroaidd oedd Oliver Cromwel; a bu llawer o Gymry, megys *Colonel* Jones, *General* Harrison, a Hugh Peters, yn gefnogwyr iddo ef a'r Senedd, yn eu gwaith o ddysgu cyfiawnder i benau coronog. A Chymro ar ochr ei fam oedd yr hyglod fardd John Milton. Yn nheyrnasiad Iago II. yr oedd amryw o Gymry yn dal swyddau uchel yn y llywodraeth, fel y dengys y crynhoad canlynol:—Yr oedd Henry Maurice, D.D., yn gaplan Archesgob Sancroft; Dr. David Dolben yn Archesgob Caerefrawc; Dr. Lloyd yn esgob Llanelwy; Syr George Jefferies yn ganghellydd; Syr Leoline Jenkins yn *Secretary of State;* Sir Thomas Jones yn *Lord Chief Justice;* Sir John Trevor oedd y *Master of the Rolls;* Sir William Williams yn Llywydd *(Speaker)* Ty y Cyffredin; a Sir John Powell yn un o'r Barnwyr. Effeithiodd y cyffroad ymneillduol yn anffafriol ar y Cymry gyda golwg ar enwogrwydd allanol a chyffredinol, gan gyfyngu eu sylw at amgylchiadau mewnol y Dywysogaeth ei hun; ond mewn amseroedd mwy diweddar darfu i lawer o honynt ail ddyrchafu eu hunain i sylw cyffredinol; ac yn yr oes bresennol mae llawer o Gymry yn mlaen-resi dysgeidiaeth, y gwyddorau, a'r celfyddydau. Gwneir hyn yn fwy amlwg yn y dosbarthiad canlynol, a deallir yn well eu rhagoriaethau neillduol.

Mewn rhifyddiaeth, gellir enwi Syr Isaac Newton, er nad yw y ffaith wedi ei nodi erioed o'r blaen. Er hyny mae yn hawdd ei phrofi. Caradoc oedd yr enw teuluaidd; ond ar symudiad ei hen deidiau i Loegr, newidiwyd hwn, a chymerasant enw arall oddiwrth *Newtown*, sef y Drefnewydd, yn Sir Drefaldwyn. Wedi hyny daeth y Dr. Richard Price, yr hwn fel Newton oedd yn enwog fel athronydd hefyd. Efe oedd y cyntaf a osododd *Insurance Societies* ar sail sicrhaol; ac o ganlyniad mae llawer o'r lles deilliedig yn briodoledig iddo ef. Rhifyddwr enwog arall oedd William Jones, tad Syr William Jones; ac yn fwy diweddar, yr oedd yr Athraw D. S. Davies o Woolwich yn enwog yn yr un llwybr. Cofnodwyd marwolaeth y diweddar Mr. Griffith Davies, yn y *Times* ar un llaw, ac yn y TRAETHODYDD ar y llaw arall; mae ei nai o'r un enw yn cynnal enwogrwydd ei ewythr; ac mae Cymro arall o'r enw William Morgan yn awdurdod cyfrifol fel rhifyddwr yn y brifddinas.

Yn yr eglwys adgofier, heblaw y rhai a enwyd, yr Archesgob Williams, yr Esgobion Humphreys, Gambold, a Griffith, a'r duwinyddion John Owen a Matthew Henry. Ac fel dynion cydoesol, dylem enwi y Dr. Jenkyn, gynt o Coward College, Llundain; Dr. Thomas Price, golygydd yr *Eclectic;* Dr. Vaughan, golygydd y *British Quarterly;* a Dr. Rowland Williams, o goleg Llanbedr. Cymru sydd i fesur mawr yn cyflenwi Lloegr â phregethwyr. Mae capeli gan Gymry yn yr holl brifddinasoedd; mae pregethwyr o Gymru mewn llawer o'r addoldai ymneillduol; a dywedir hefyd fod dros bump o Gymry ymhob Sir o Loegr, yn llenwi pulpudau yn yr Eglwys Sefydledig.

Fel barnwyr a chyfreithwyr, mae y Barnwyr Kenyon a Richards yn bur adnabyddus; ac mae Mr. *Justice* Williams yn awr yn dangos nad oes un enwogrwydd cyfreithiol nad all Cymro ei gyrhaedd. Yr oedd ei dad, *Sergeant* Williams, yn awdurdod cyfrifol, fel ysgrifenydd ar gyfreithiau Prydain; ac y mae y mab yn cael ei ystyried yn un o'r cyfreithwyr mwyaf dysgedig ar fainc y barnwyr.

Mewn ieithyddiaeth a dysgeidiaeth gyffredinol, gallesid dysgwyl i'r Cymro

ragori; ac nid yw y dysgwyliad yn ofer. Mae Dr. Davies, Edward Llwyd, a'r Dr. Owen Pugh, wedi gwneyd iaith ac enw y Cymry yn adnabyddus dros yr holl Gyfandir; yr oedd ac y mae Syr William Jones yn adnabyddus dros yr holl fyd fel darganfyddwr a desgrifiwr byd newydd o lenyddiaeth yn Hindostan; ac nid ydym heb gynnrychiolwyr enwog yn yr oes hon. Ein cydwladwyr, yr Archddiacon Williams ac Arthur James Johnes, ydynt yn adnabyddus fel ieithyddwyr, ac fel awdwyr llyfrau a gyfrifir yn awdurdodol; ac y mae amryw o Gymry yn y prif athrofeydd, megys y Parchedigion Lewis Evans, D. G. Vaughan, J. Llewelyn Davies (Rhydychen), a Robert Ellis (Caergrawnt), wedi enwogi eu hunain fel cyfieithwyr Plato, ac mewn cysylltiad â gweithiau Arglwydd Bacon, a *Bohn's Classical Library*.

Yn y llynges ac yn y fyddin, mae hefyd enwogion Cymreig. Gellid enwi y Llyngesydd Thomas, y Llyngesydd Matthews, y Llyngesydd Price, a Chapten Griffiths, mewn cysylltiad â'r blaenaf; a'r Cadfridog Picton, Cadfridog Nott, a *Major* Edwards, mewn cysylltiad â'r olaf. Dywedir yn wir fod y Duc Wellington yn Gymro ar ochr ei fam, yr hon a ddisgynodd o deulu y Treforiaid; ac y mae dewrder y *Fusiliers* Cymreig braidd wedi myned yn ddiareb. Ennillasant lawer iawn o glod yn y rhyfel Yspaenaidd; mae eu dewrder y pryd hynny yn ffaith adnabyddus i bob darllenydd hanesyddiaeth; ac yr ydym oll yn wybyddus mai hwy a ennillasant fwyaf o glod yn mrwydr yr Alma, pan y gwaeddodd Syr George Brown, wrth weled eu hymosodiad ar y Rwssiaid, "*Well done, my brave Welsh, I shall remember you again.*"

Maent wedi bod yr un mor lwyddiannus yn y Gwyddorau a'r Celfyddydau. Thomas Pennant sydd lawn mor enwog fel naturiaethydd ag yw fel hynafiaethydd; ac yn hanes y wyddor Fferyllol rhoddir lle anrhydeddus i Dr. Thomas Henry. Mewn Meddyginiaeth, gellir enwi Syr David Davies, meddyg y diweddar Frenines Adeilaide; ac y mae y Doctoriaid C. J. B. Williams a Thomas Williams yn blodeuo yn awr. Yn nghyfres lluniedyddion, dywed Mr. Ruskin, nad oes un wedi ymddangos yn ddiweddar yn deilwng o gymhariaeth â'r diweddar G. W. M. Turner; a Chymro ar ochr ei fam oedd efe. Cymro hefyd oedd Richard Wilson, y "*landscape painter.*" Penry Williams, gwr o Ferthyr Tydfil, yw y lluniedydd blaenaf yn Rhufain; ac y mae amryw eraill wedi enwogi eu hunain yn Llundain. Bydd enw un, sef Owain Jones, yn ddigon o engraifft. Cymro hefyd yw un o brif gerfwyr *(sculptors)* ei ddydd, sef John Gibson, gwr ganedig yn Abergele, yr hwn hefyd a drigfana yn ninas y Pab; ac y mae amryw, megys John Evan Thomas, Joseph Edwards, a William Jones, wedi ennill safleoedd cyfrifol yn y brifddinas. Gwnaeth Edward Jones a John Parry gerddoriaeth Cymru yn adnabyddus i'r byd yn gyffredinol; ac y mae Brinsley Richards, Ellis Roberts, John Parry (ieuangaf), a John Thomas, yn alluog i ennill lliaws o wrandawyr yn ngwyneb yr holl gystadleuaeth sydd yn Nghaerludd.

Fel cenadon i wledydd tramor, ac mewn ymdrechion i daenu yr Ysgrythyrau dros yr holl fyd, mae ein cydwladwyr wedi cyflawni eu rhan. Yn nghofnodiadau y genadaeth, nid oes un enw yn fwy parchus na'r eiddo John Williams, merthyr Erromanga; mae lledaeniad y Bibl yn Llydaw yn ddyledus i'r diweddar Barch. Thomas Price; ac nid oes achos cywilyddio i ddweyd mai Cymro yw y Parch. Thomas Phillips, Ysgrifenydd Jubili y Fibl Gymdeithas.

Mewn gwleidiadaeth, gellir enwi yr Henuriad Waithman, ac yn neillduol William Williams, A.S. dros Lambeth, gwr sydd yn llanw lle y diweddar

Joseph Hume yn Nhy y Cyffredin, ac yn cael ei enwi yn barchus gan bob gradd o ddynion fel un o'r aelodau goreu yn y Ty. Cymro o Sir Faesyfed yw Syr George Cornewall Lewis, yr *"Home Secretary of State."* Bydd un sylw ychwanegol yn ddigon i derfynu hyn o ddosbarth. Wrth ystyried ffeithiau cyffelyb, dywedodd Syr James Macintosh fod y Cymry wedi gwneyd cymaint o wasanaeth i'r byd ag y dylesid ddysgwyl oddiwrthynt. Wele ei eiriau ef ei hunan :—

"It was not till the reigns of the Tudors, 'Brittania's issue,' that wise attemps were made to humanize the Welsh by equal laws. Their language withheld many of them from contributing to English literature; and yet their small numbers, their constant disorder, and their multiplied links of dependence, repressed a genius which might otherwise assume a national form. *If considered, as they now should be, as a part of the people of England, their contributions have been by no means inadequate to reasonable expectations.* But the mental produce of a nation has been inconsistently expected from a people robbed of national character, and who are only now reappearing on a footing of legal and moral equality with all other Englishmen."*

Yr ydym yn ddiolchgar i Syr James am ei dystiolaeth deg a chyfiawnbwyll am danom: ac nid oes genym un amheuaeth, pe buasai yn wybyddus o'r ffeithiau oll, ac yn fyw yn awr, y buasai ei dystiolaeth yn fwy cadarnhaol nag y mae, ac yn fwy ffafriol hefyd i Gymru, Cymro, a Chymraeg.

T. Stephens.

**History of England*, I., 255.

PAHAM Y MYN YR EGLWYSI GAEL TRINDOD?—Rhif I.

Nid yw hwn, ni a debygem, yn ofyniad afresymol. Gan fod y goleuni y darfu i ymchwiliadau yr oesau diweddar ei daflu ar y pwnc hwn y fath, mae yn syn na buasai wedi cael ei roi i fynu er ys talm. Os na wnawn ond edrych ar y ffaith ar ei phen ei hun, heb ar yr un pryd olrhain yr achosion o honi, llenwir ni â llawer o ddyryswch meddwl, a thueddir ni i laesu ein ffydd yn mlaen-fynediad y byd ac yn nhynged ddyrchafedig yr hil ddynol.

Nid fy amcan yn y sylwadau canlynol yw adgyfleu nac adgrynhoi y rhesymau yn erbyn athrawiaeth y Drindod, oddieithr yr hyn y bydd arnaf alwad i'w grybwyll gyda llaw; mae y cyfryw resymau wedi ymddangos, lawer o honynt o leiaf, yn ngholofnau yr Ymofynydd yn yr amser a aeth heibio. Ac mi a gynghorwn y rhai ag nad ydynt anmharod i weled pa beth sydd i'w ddyweyd yn *erbyn*, i ddarllen yr hyn sydd wedi cael ei ysgrifenu *dros*, athrawiaeth y Drindod. Nis gwn am un llwybr gwell i'w dwyn i iawn synied yn nghylch y pwnc. Pan fydd ambell i fam gall am ddysgu ei phlentyn i beidio a bod yn rhy hoff o bethau melus, dod hwynt o'i flaen, a gad iddo helpu ei hun. Mae cyfalnawsaeth (*homeopathy*), h.y., bod tebyg yn gwella tebyg, wedi ei brofi yn llwyddianus, os nid yn fwy felly, gyda'r meddwl, na chyda'r corff. Darllen gwaith Trindodwr a ansefydlodd olygiadau y Dr. Watts am y Drindod; a gwn am un a gollodd bob ffydd yn y golygiadau cyffredin am ysprydoliaeth y Beibl wrth ddarllen gwaith y Dr. Henderson ar "Ysprydoliaeth;" ac am un a aeth i anghredu yn modoliaeth ysprydion drwg wrth ddarllen y llyfr a ysgrifenodd Walter Scott o Airedale i brofi eu bodoliaeth.

Yr hyn a amcanaf wneyd, ar ol ond crybwyll yr hyn sydd wedi cael ei ddangos a'i brofi yn mherthynas i'r Athrawiaeth dan sylw, i foddlonrwydd y

rhesymol a'r goleuedig o bob dosparth, yw ceisio ateb, paham, ar waethaf yr oll a wnaed, y myn yr eglwysi barhau i broffesu ffydd yn y Drindod.

Yr ydys wedi dangos mai mewn Un Duw y credai yr Iuddewon, ac mai Undod Duw yw dysgeidiaeth yr Hen Destament.

Yr ydys wedi dangos na ddysgodd Iesu Grist ond un Duw, y Tad.

Yr ydys wedi dangos fod yr hyn oedd unwaith y sail gadarnaf i'r Drindod, 1 Ioan v. 7, yn ddim amgen na rhwng-osodiad *(interpolation)*, a bod testunau eraill y tybid unwaith eu bod yn dysgu yr athrawiaeth wedi eu rhoi i fynu gan Drindodwyr goleuedig; ie, erbyn hyn fod pob testun a ddygwyd erioed yn mlaen drosti wedi ei roddi i fynu gan ryw ysgrifenydd Trindodaidd.

Yr ydys wedi dangos fod rhyw eglurhad mwy rhesymol ar bob rhan o'r Testament Newydd ag sydd *ar yr olwg gyntaf* yn cael ei gymeryd fel yn dysgu cydraddoliaeth y Mab a'r Tad.

Yr ydys wedi dangos iddi gael ei dechreu gan bersonau unigol, ac wedi hyny, ei chwblhau gan gynghorau, yn y rhai yr oedd ymladdfeydd parhaus yn nghylch geiriau, zel bleidiol gynddeiriog, a'r yspryd erledigaethus chwerwaf, y prif nodau.

Yr ydys wedi dangos fod yr eglwysi a honant fod credíniaeth o'r athrawiaeth o Dri Pherson yn y Duwdod yn amod anhebgorol iechydwriaeth, yn cywilyddus ac yn anobeithiol wahaniaethu yn eu plith eu hunain gyda golwg ar ba beth sydd i'w olygu wrth hyn, fel nas gwyr ymofynydd pryderus pa esponiad Trindodawl i'w dderbyn yn sail ei ffydd.

Yr ydys wedi dangos mai y llocheS i ba un y rhed Trindodwyr, os erlynir hwy yn gaeled, yw llocheS dirgelwch, lle nid ymresymant â chwi yn mhellach, ond y dywédant, "Dirgelwch gogoneddus yw; pwnc i'w gredu ac nid i'w amgyffred."

Yr ydys wedi dangos fod gwahaniaeth hanfodol rhwng yr hyn sy wir ddirgelwch neu *uwchlaw rheswm* â'r hyn nad yw ond haerdyb wrthun neu sydd *groes* i reswm; ac nas golyga y gair "dirgelwch" yn y Testament Newydd yr hyn sydd *annealluadwy* neu anmhosibl i'w amgyffred, eithr rhywbeth a fu unwaith yn ddirgelwch neu yn nghudd er nad yw felly mwyach ar ol cael ei ddadguddio.*

Yn awr, pan y mae cynnifer o bethau wedi eu gwneyd yn amlwg ac agored i sylw y byd: pan y mae Trindodiaeth wedi dyoddef cymmaint oddiar law beirniadaeth oleuedig synwyr cyffredin, a thystiolaeth cydwybod pa fodd y mae hi eto heb farw? paham y myn yr eglwysi ei rhifo yn un o bynciau eu ffydd? *Mae yn rhaid i ni gofio y dylanwad sydd gan awdurdod.* Gâd corff y bobl i'w hathrawon proffesedig feddwl drostynt a phenderfynu pa athrawiaethau i'w derbyn, pa rai i'w gwrthod. Ystyriant hi yn lawn i ddynion o ddysg a gwrteithiad y rhai a *gyssegrant* eu hamser a'u llafur tuag at fyfyrdodau duwinyddol, ac a ddysgwylir i arfer eu hunain i ddidoli y gau oddiwrth y gwir, i gael eu cyfrif yn flaenoriaid ac arweinyddion mewn pethau crefyddol. Boddlonant i dderbyn cynyrch llafur y rhai hyn, ar ffurf gosodiadau neu lwerdybiau *(dogmas)* llyfnion a thaclus, parod i'w llaw. Teimlant eu hunain yn anghymhwys i anturio ar ymchwiliadau helaethion; mae eu haddysgiaeth yn anmherffaith, eu hamser yn brin, eu galluoedd ymresymu heb gael mwy o ymarferiad nag a roddir iddynt gan amgylchiadau mwyaf cyffredin bywyd.

* *Dyma ddywed Archesgob Whately am y gair.* Essays 2nd Series, p. 285.

Mae rhywfaint o wirionedd yn y syniad poblogaidd hwn. Mae llawer o bethau cysylltiedig â chrefydd a ofynant barotoad a hamdden bywyd ysgolheigaidd; ac oblegyd hyn, yn mhob oes a gwlad cawn ddosparth o ddynion, dan yr enw o offeiriaid neu weinidogion, y rhai ydynt wrth swydd yn ngafael a gorchwylion crefyddol. Ond yr ydym yn gweled yma gamsynied pwysig yn codi oddiar fod duwinyddiaeth a chrefydd yn cael eu cymysgu a'u gilydd. Mae digon o wahaniaeth rhyngddynt. Duwinyddiaeth, y wyddor am grefydd yw, fel mai y wyddor am y ser yw seryddiaeth, neu y wyddor am y ddaear yw daeareg; ond nid crefydd yw duwinyddiaeth, mwy nag yw y ser yn seryddiaeth. Gall dyn fod yn dduwinydd mawr, h.y., gall wybod llawer iawn *ynghylch* crefydd tra nad yw yr holl amser yn berchen ar deimlad crefyddol dwfn. Nid oedd yr apostolion yn dduwinyddion, yn ystyr bresenol y gair, ond yr oeddynt yn ddynion angerddol o grefyddol; a gall pob dyn gofio am lawer ag oeddynt dduwinyddion tra enwog, gwybodaeth y rhai oedd helaethach na'u duwioldeb.

Mae llawer o ddynion, wrth bob tebyg, yn edrych ar grefydd fel corff o athrawiaethau, crynodeb o erthyglau ffydd, ac nid fel teimlad defosiynol diolchgar a santaidd o barchedig ofn tuag at Dduw, a syniad o frawdgarwch a chariad tuag at eu cyd-ddynion. Gadawant i'r gweinidog dynu math o gytundeb rhyngddynt a'u Creawdwr, a thanysgrifiant hwythau ef, heb edrych i mewn i resymoldeb ac iawn ystyr y cytundeb, ac heb feddwl ei bod yn angenrheidiol iddynt hwy i amgyffred ei gynwysiad, gan ymddiried am hyny yn hollol i'w hathrawon crefyddol, y cyfryngwr, mewn ffordd, rhyngddynt â Duw. Nis gwadant na wnaeth y Creawdwr da hwynt yn greaduriaid rhesymol, ond bwriant mai ar orchwylion y byd hwn yn unig y dylent roi eu rheswm i weithredu, lle y mae gochelgarwch, cyflymder, cyfrwysdra, a challineb, yn anhebgorol i lwyddiant; gyda chrefydd, hyder, ymddiried, ffydd yn ngeiriau a gweithredoedd rhyw un neu rai eraill, a ofynir. O ganlyniad, hwy a dderbyniant unrhyw esponiad ar y Beibl ag y bydd i ryw awdurdod cymeradwy ei roddi; dysgant pa beth sydd iddynt i'w gredu (fel y dywedir) fel y dysgant y llechres lluosogi *(multiplication table)* neu reolau gramadeg. Y Beibl yw eu hawdurdod uchaf; ond ar y llaw gyntaf nid yw y Beibl iddynt hwy ond llythyren farw; rhaid iddynt hwy wrth awdurdod arall i'w egluro a'i esponio iddynt, a deuant o hyd i'r awdurdod hwn yn ngweinidogion eu sectau.

Yn awr, mae yn ymddangos i mi, y dylai dyn, wrth fyfyrio neu ymwneyd a'r wyddor am grefydd neu dduwinyddiaeth, ddefnyddio yr holl adnoddau a ddyd ar waith, gymmaint i'w fantais, wrth ymwneyd a phob gwyddor arall. Ië, dylai testun o'r fath bwysigrwydd goruchel ag yw crefydd gyffroi brwttach awydd a dyddordeb mewn dyn, a'i gymhell i'r ymarferiad mwyaf bywiog a chyflawn o'i alluoedd rhesymol. Duw, rhinwedd, ac anfarwoldeb, yw gwrthrychau uchaf myfyrdod dyn; o ganlyniad dylent ddihuno ynddo wresogrwydd a dyfalwch, cymmesur i ryw raddau i'w mawredd a'u hanfarwoldeb.

A'r hyn oll a berthyn i grefydd, mewn gwirionedd: syniadau teilwng a rhesymol, nad pa mor anmherffaith, am wrthrych addoliad; golygiadau clir ac addas am ein cyfrifoldeb iddo, a'n rhwymedigaeth i arfer ein galluoedd yn y ffordd oreu er ateb dybenion ein bodolaeth a gwasanaethu doeth amcanion llywodraeth foesol y Goruchaf; amgyffred eglur o'n perthynas â, a'n dyledswyddau tuag at ein cydgreaduriaid, fel plant yr un Tad daionus; yr holl

bethau hyn, nid ydynt allan o gyrhaedd pob dyn, nad beth ei alluoedd naturiol nad beth y radd o wrteithiad a gafodd, os nad yw yn fwy paganaidd na'r cyffredin. Mae pob un yn cydnabod ei ddyledswydd i ymddwyn fel creadur rhesymol mewn materion tymhorol, ond gyda phethau crefyddol mae llawer yn rhoi heibio ymddwyn felly. Yn y naill amgylchiad mae yn foddlawn meddwl trwy ddirprwy; ond ystyriai y neb a gynygai y fath lwybr iddo gydag helyntion y byd hwn yn deilwng o gael ei warthnodi yn elyn cymdeithas neu ynfydyn tlawd. Yn y naill amgylchiad, derbynia gasgliadau nas gellir eu cymmodi â rheswm; yn y llall, ar seiliau da, gwrthoda wneyd hyn. Yn nhrafodaethau masnach, nid oes neb yn amheu ei allu na'i ewyllys i rifo yn deg a chywir, eithr yn ei dduwinyddiaeth beiddia gyfrif tri yn un ac un yn dri.

Bychan yw cyfeiliornad ar y dechreu, fel cwmwl bychan yn codi o'r môr; gan bwyll cynydda ac ymleda, nes cuddio o'n golwg braidd yn llwyr ffurfafen deg y gwirionedd. Ni anwyd athrawiaeth y Drindod yn ei llawn faint; onite, nid wyf yn tybied y buasai i'r mwyaf difeddwl o ddynion ei derbyn; ond trwy iddi enill yn raddol ar y byd, nes cael lle i osod ei gorsedd i lawr, a thaenu ei llywodraeth, nid ymddengys haner mor chwythig ac adgas ag yw ond i'r meddylgar a'r ymofyngar. Dydd trist i Drindodiaeth fydd hwnw pan wrthryfelo yr eglwysi yn erbyn awdurdod eraill, ac yr ufuddhaont i'w synwyr a'u teimlad da eu hunain.

J. W.

TRAETHAWD

Ar y Ddyledswydd o Gariad a Chydymdeimlad a'n gilydd, mewn Achosion o Dybiau Crefyddol.

"Am ben hyn oll gwisgwch gariad, yr hwn yw rhwymyn perffeithrwydd."—*Ysgrythyr.*

"Religion, being the chief bond of human society, it is a happy thing when itself is well contained within the true bond of Unity."—*Bacon.*

Y Rhaglith.

Meddyliwn fod cael dynion oll o'r un feddwl, ac o'r un tybiadau crefyddol, yn ymylu ar anmhosibilrwydd, tra byddo natur ddynol yr hyn ydyw; a byddai yr un mor annoeth i ddysgwyl hyn, a chael eu pryd a'u gwynebau yr un; oblegid cyhyd ag y byddo dynion dan wahanol ddulliau o addysg, ac o wahanol dymherau, cyfansoddiad cyrph, tueddiad meddwl, ac hefyd â llawer o lesiadau gwahanol i'w gwasanaethu, ac o amrywiol raddau o wybodaeth, a deall; ïe, mewn gair, tra byddo anwybodaeth a hyder yn para yn y byd, fe fydd dadleuaeth ac anghyttundeb oblegid pethau crefyddol, ac hyd y nod ymhlith y rhai hynny a gyttunant yn yr un ffydd, a phroffes. Ond nid ydyw hyn yn rhoddi sail i erledigaeth grefyddol mewn un modd; oblegid medda pob un iawnder perthynol i ddyn, a gallu naturiol i addoli yr hyn a feddylio efe yn oreu—ac ni ddylai neb ei ddrygu yn hyn; ac hefyd, ni ddylai un geisio lles trwy grefydd un arall am mai peth personol yw gwir grefydd. Nid yw yn rhan o grefydd i *wthio* crefydd ar neb, er y gall ei *chymhell*; ond pwnc o ddewisiad y dylai crefydd fod, ac nid o reidrwydd. Gadawer i gref-

ydd anadlu awyr glir, a dattoder pob llyffetheiriau oddiam ei thraed, pa rai a ddyfeisiwyd trwy dywyllwch penboethni, a zel heb wybodaeth.

Ond mae yn angenrheidiol dweud gyda llaw, nad yw ein *Ffydd*, neu ein *Credo*, yn rhinweddol, ond cyn belled ag y mae yn brawf o ein bod wedi defnyddio ein galluoedd meddyliawl yn yr ymchwil ddwys am *wirionedd;* fel y mae *gweled* yn brawf o ein bod yn defnyddio ein llygaid, neu *glywed* yn tystio yr ymarferiad o'n clustiau. Ac ar y sail hyn, gellir dweud fod y creulondeb a'r ddifriaeth a ddengys rhai at rai eraill o wahanol dybiau crefyddol, yn rhwym o fod yn tarddu oddiar *ddygn anwybodaeth* neu *ddwfn ddrygioni;* oblegid mae yn eithaf amlwg, mai y dynion hyn, o bawb, a feddant leiaf o *wir ffydd;* os yw ffydd i'w hadnabod wrth ei ffrwythau, fel yn ddiau y mae yn ol tystiolaeth y Gair.

Gyda golwg ar *Ryddid Crefyddol*, mae yn amlwg mai ar *ddoethineb* a *rhinwedd* mae ei sail; oblegid y rhai hyn ydynt y galluoedd nerthol i attal gorthrymder a phenboethni, a'r cleddyf a roddes y Duw mawr i ddyn i yrru enbydrwydd allan o'r byd. Am hynny, dysger, h.y., ffordder, a thaener gwybodaeth fuddiol, doethineb, a rhinwedd; deoler cyfeiliornad a choelgrefydd; ond bydded y cwbl i gael ei ddwyn ymlaen yn yspryd *gwir grefydd* a *rhyddid*, am y gellir ymddibynu na fydd i hon gynyddu trwy waed, ac nid yw yn bosibl i *erledigaeth* wrteithio y tir er ei thyfiant. Gwirionedd, goleuni, a rheswm, ydynt noddiant *rhyddid*; a hi a ffy o blith terfysgoedd, pleidgarwch, penboethni, ac uchelfrydedd.

Y Traethawd.

Wrth ymdrin a'r ddyledswydd bwysig a ddynodir yn y testun hwn, amcanwn ddangos ei *rhesymoldeb*, ar amryw ystyriaethau, ynghyd a'r *effeithiau* tra niweidiol o'r esgeulusdod o honi; ac i'r dyben o fod yn drefnus yn ein sylwadau, dosranwn fel y canlyn:—

pennod i.

Ymddengys y Ddyledswydd yn rhesymol oddiar yr ystyriaeth ddifrifol o Nodweddiad Awdwr Crefydd.—Dan yr ystyriaeth ddyladwy o nodweddiad y Bod mawr ag y mae proffeswyr crefydd yn cymeryd arnynt ei addoli a'i wasanaethu, mae yn eithaf amlwg fod y *cariad* a'r *cydymdeimlad* a enwir yn y testun, yn gweddu ac yn hollol angenrheidiol, cyn y gellir cyflawni y cylch crefyddol mae y Grefydd Gristionogol yn rhwymo ar eu phroffeswyr; oblegid, o'r holl fendithion gwerthfawr ag y mae *Duw'r cariad* wedi cynysgaeddu dynion â hwy; *cariad* a hoffder at ei *berffeithderau* yn yr hyn a elwir *crefydd* sydd yn rhoddi y dyddanwch pennaf a'r hyfrydwch uwchaf; am nad all dim arall wir sirioli y bywyd hwn ond ymarferiad beunyddiol o'n cynheddfau rhesymol, i fyfyrio ar *Briodoliaethau y Bod Anfeidrol*, awdurdod yr hwn sydd yn cael ei hyfforddi gan *gariad* a *daioni cyffredinol*.

Nid yw crefydd o'r fath hyn yn gallu bodoli mewn rhyw ddefodau allanol, a rhyw rwysg ffug-sanctaidd; ond mewn gwir *ostyngeiddrwydd* calon i'r hwn a wnaeth i bob peth gydgordio yngweithrediadau natur, ac i atteb eu dybenion mawrion; ac yma y mae *boddlonrwydd* yn eistedd ar ei gorsedd freninol, a *dedwyddwch* yn lledu ei heffaith Dwyfol oddiamgylch iddi; ac yma y ceir cyfaill *diwahan* Gwir Grefydd. Ond pe gofynem, Pa beth sydd yn gysylltiedig a *choelgrefydd?* Och! rhaid ateb—mai pethau hollol groes sydd yno, sef creulondeb, cynnwrf-meddwl, llid, a chenfigen; ac i'r ellylles hon y gellir

cyfrif yn gyfiawn y creulonderau dirif a lychwynasant wyneb yr holl oesau, am nad oes dim mor farbaraidd, fel na wna *coelgrefydd* ei droi yn *ddyledswydd!*

Cawn hanes am offeiriaid Moloch yn aberthu hyd y nod eu *plant* i'r duwiau! Gallwn hefyd weled yn ysgrifeniadau ysgrifenwyr Groeg a Rhufain, effeithiau erchyll eilun-addoliad; a'r holl bethau hyn yn tarddu trwy gynwys syniadau anghywir ac annheilwng am Dduw, a hyn yn eu harwain i efelychu eu syniad am dano.

Os byddai yn cael ei ddarlunio gan yr offeiriaid yn *Fod dialgar* ac *anhrugarog*, nid rhyfedd oedd gweled yr addunedwyr a'r canlynwyr yn dilyn ei esiampl, a'r pethau mwyaf erchyll yn canlyn y cyfeiliornad. Fel hyn y tarddodd wag dyb Arabaidd, pan y gwnaent *erledigaeth* yn grefydd, ac yn taenellu y ffordd i Baradwys â gwaed miliynau o'u cydgreaduriaid! Eu proffwyd mawr ei hunan a roddai gennad iddynt ladratta a llofruddio, gan ddysgu iddynt mai y ffordd sicraf i enill ffafr Allah (sef Duw) oedd buddugoliaethu yn marwolaeth yr anghredinwyr; ac mai y *dagr* oedd yn gwneud y galanastra hyn oedd *cleddyf y nefoedd*, yn meddwi ar waed y bobl hynny; a ddysgwylient bleser anianol wedi angau fel gwobr am eu troseddau, er fod eu gweithredoedd yn warth i ddynoliaeth.

Ond nid yma yn unig y gwelwyd effeithiau y cyfeiliornad hwn; ond byddai yn hyfrydwch i allu dweud, fod yr oll o'r rhai a gyfenwent eu hunain yn Gristionogion, ac yn ganlynwyr Tywysog Tangnefedd, yn rhydd o hyn, ac yn dangos mwy o gariad a chydymdeimlad, ac eu bod wedi ymgadw bob amser oddiwrth bob penboethni ac yspryd erledigaethus. Ond mae lle i ofni, ïe, mae profion i'r gwrthwyneb; fod amcanion dynion drygionus, a phroffeswyr cyhoedd o hon, wedi tyccio gormod, o dan lywyddiad *tybiau cyfeiliornus*, am *Awdwr Mawr Crefydd*, yn ei *berffeithiau gogoneddus*, ac wedi gweithredu yn hollol groes i'r trefniant goreu ag y gwybu y byd am dano, sef yr hon sydd yn dysgu amynedd a thrugaredd, "ac uwchlaw y cwbl, *gariad* yr hwn yw *rhwymyn perffeithrwydd*."

PENNOD II.

Nodweddiad ei Sylfaenydd.—Pan y sylwom ar nodweddiad yr Arglwydd Iesu Grist, fel Diwygiwr a Sylfaenydd y grefydd a elwir ar ei enw, sef y Gristionogol, cawn fod ei holl esiamplau yn dangos y ddyledswydd a nodir yn y testun, gan ei chymhell ar bawb o'i ganlynwyr. Cawn fod ymhlith yr Iuddewon, yn nyddiau cnawdoliad y Messiah, amryw bleidiau neu enwadau crefyddol a gwladol, a chyrchent idd ei wrando, er penderfynu pa mor belled y cydgordiai ei olygiadau a'r eiddynt hwy. Dysgwylient iddo ymuno a rhyw *un blaid;* ond yn hyn siomwyd hwynt oll, a gwelwyd taw â dyn ac nid â phlaid o ddynion yr oedd a wnelai. Esponiai wirioneddau mawrion sylfaenol crefydd, a chymerai olwg eang, ddofn, a phell, ar *hanfodolion* crefydd, y rhai ydynt anghyfnewidiol ac annibynol ar unrhyw oruchwyliaeth allanol arferedig gan Dduw at ddynion. Ni osodai efe ddim pwys mawr ar *allanolion* crefydd, lle byddai achos cyfiawn i amheu eu gwirionedd; a dangosodd mai nid mater lleol a dibynol ar ryw un math o drefniadau amgylchiadol ydoedd *gwir grefydd;* ond mai egwyddor drigianol, arosol, a llywodraethol yn y galon ydoedd. Dysgodd mai "addoli Duw mewn yspryd a gwirionedd," ydoedd y pwnc, y prif bwnc, a'r unig bwnc; ac nid *pa le* oedd oreu i gynnyg addoliad iddo. Ac ni thalai fawr sylw hyd y nod i ordinhadau sef-

ydledig y nef ymhlith yr Iuddewon, ond pan ddeuai yn rhwydd ac heb fyned iad oddiar ei ffordd mewn cyffwrdd â hwy; a'r canlyniad o hyn fu, i'r Phariseaid haeru ei fod yn ddiffygiol mewn *crefyddoldeb*. Gwadent hwy yn ymarferol hanfodolion crefydd, a gosodent bwys mawr ar bethau nad oedd dim a fynnent hwy â chrefydd y galon; ac y mae yn syndod pa mor lleied o ddynion sydd wedi bod ar yr un amser yn y byd, ag sydd yn iawn-ddeall pa beth sydd yn cyfansoddi gwir grefydd. Os craffwn ar y grefydd Iuddewig, gwelwn mai sylw manol a blinderus o fanylion *gwag* ac *usaidd* allanol a gyfansoddai hon, yn ol esponiad y Phariseaid. *Seremoniaeth* a'i cyfansodda, medd Pabyddiaeth; a seremoniaeth o ryw ychydig mwy goleu ac arwyddocaol a fedd rhan rhy eang o Brotestaniaeth; ond ni wellheir un o'r rhai hyn trwy ddifenwi ac ymryson. Os am ymlid cyfeiliornad o'r tir, mae yn rhaid ei ymresymu i fudanrwydd, ac yna diffydd o hono ei hun. Dyledswydd crefyddwyr yw caru a chydymdeimlo, gan amcanu tywys y cyfeiliornus i'r uniawn, fel y Blaenor ei hun.

PENOD III.

Nodweddiad y Grefydd Gristionogol.—Ymddengys rhesymoldeb y ddyledswydd a gymhellir yn y testun, os ystyriwn yn ddifrifol *natur crefydd Crist;* ac y mae gofyniadau un ysgrifenydd enwog yn ymgynyg i ni yma fel yn bwysig iawn, sef, Yn—

1. I ba ddyben ei rhoddwyd?
2. Paham ei seliwyd gan Iesu a'i waed?
3. Paham ei pregethir?
4. Pa beth ydyw y dedwyddwch penaf mae yn gyfranu?
5. Pa un ydyw y fendith benaf, am ba un y dylid ei gwerthfawrogi?
6. Pa beth ydyw ei gogoniant uchaf, a'i hawl flaenaf am ddiolchgarwch yr hil ddynol?

Rhy faith i derfynau traethawd fel hwn fyddai ymdrin a'r gofyniadau pwysig yma bob yn un ac un; ond amcanwn ddangos fod yspryd neu natur y grefydd Gristionogol, ynghyd a'i dyben goruchel, yn hollol anghytuno a phob ymryson a rhagfarn.

Amlwg iawn yw yn ol natur pethau, ac yn ol tystiolaeth pob oes, na tharddodd ymrysonau ac erledigaethau erioed oddiar *wir sel dros grefydd* a *gorchymynion Mab Duw*, neu oddiar ddymuniad cywir am ledaeniad athrawiaeth sydd yn annog dygiad ymlaen *wirionedd*, *cyfiawnder*, a *chariad;* ond mae'n eithaf eglur fod y pethau gofidus hyn wedi deilliaw o felus chwantau dynion, a'u sel dros athrawiaethau a gorchymynion dynion, ynghyd ag ymdrech am lywodraeth ac arglwyddiaeth dymhorol. Ac er fod yr yspryd anghristionogaidd hwn wedi ei ddarostwng i raddau mewn gwledydd diwygiedig; etto mae achos i ofni fod mwy o sel dros ffurfiau a seremoniau neillduol na thros rinwedd a gwir grefydd. Wrth graffu ar grefydd y Bibl, nis gallwn ganfod yn hon ond yr amcan mawr o godi a rhyddhau yr hil ddynol, a gosod y meddwl yn ddilyffetheiriau, credoau, a phleidiaeth ddadleugar. Nid yw hon yn cynwys ynddi y culni, y wasgfa, na'r cyfundrefnau, mae twyll, trawsedd, ac uchelgais, wedi genhedlu; ond yr "iau sydd esmwyth, a'r baich sydd ysgafn," a'r cwbl yn anadlu rhyddid ac ewyllys da trwy yr holl frawdoliaeth. Ni cheir yn hon y ffurfiadau cyfyng, a'r rhwymau wrth ryw dybiau oesawl, a chyfansoddiadau gosodedig, heb le i gyfnewid dim mewn gair na meddylddrych, ond yr un pethau trwy yr holl genhedlaethau.

Ond gwireddau gorgynwysfawr sydd yn hon megys yn amgylchu y cwbl, ac yn estynedig o fewn cyrhaedd yr enaid i'w defnyddio a'u cymhwyso at yr achosion angenrheidiol: ac megys had i'r hauwr, i'w daenu, a'i noddi, a'i rannu, gan ei feddwl, ei serch, a'i addfwynder, er cynyddu i fwy-fwy o ffrwythau gogoneddus doethineb a rhinwedd. Hefyd, mae hon yn mhob man ac ar bob amser yn magu helaethrwydd o yspryd rhinweddol a dyngarol, gan adael i bob un gyfranu yn ol cymhelliadau ei gydwybod; a gwelir hi yn mhob lle, yn cymhell yr enaid i rhyddid a gallu, trwy ei alw i wylio yn erbyn tueddiadau y teimladau, y nwydau, a'r chwantau, ag ydynt yn cadwyno, yn gwanhau, a dinystrio yr enaid.

Trwy yr athrawiaeth fawr a phwysig a gyhoedda hon, am *Dad cyffredinol*, ac *Arglwydd pawb oll*, mae megys yn symud ymaith yr holl ragfuriau a'r parwydydd a rannant broffeswyr crefydd, ac megys yn dileu pob enwad, cenedl, cynulleidfa, a phobl, pa rai mae dynion wedi drafferthu i gyfodi megis ystafelloedd i gauad cariad i fynu; ac y mae yn cynull y cwbl ynghyd, yn un teulu mawr, heb derfyn na chanolfur rhyngddynt, gan sefydlu rhyw gydymdeimlad rhwng dyn, pa le bynag ei ceir, a holl gread resymol Duw, a Thad *pawb oll*.

Un o brif ddybenion Crefydd y Groes, ydyw ein haddasu a'n dwyn i wynfyd tragwyddol wedi gorphen y fuchedd hon; ond cymaint uwchlaw galluoedd meidrol ydyw dirnad y gwynfyd sydd yn aros y saint, fel nad yw y syniad cryfaf sydd genym am dano ond amlygiad mai *dynesiad* at Dduw ydyw. Ond y gofyniad pwysig a ddaw i mewn yn gydsyniol a'n pwnc yw hyn,—Ai nid ydyw y dynesiad hwn yn *dechreu ar y ddaear?* Ac os yw yn dechreu yma, mae yn rhaid cael addasrwydd i'w ddal yn *ddilen* yn y sefyllfa ddyfodol; a chan mai CARIAD yw Duw, ni ellir ei fwynhau yno heb ddarpariad i hynny yma; a'r hwn nid yw yn *caru ei frawd*, nis gall fod yn *caru Duw*. Diau mai rhan fawr o'r gwynfyd tu draw i'r llen fydd cael ein huno a'r doeth a'r rhinweddol o'r hil ddynol, a bodau uwch mewn graddoliaeth; ac os na fydd undeb yspryd rhwng y trigolion, nis gall fod yno ddedwyddwch; oblegid nid undeb *lle* yn unig a olygir, ond perffaith gydgordiad mewn meddwl a theimlad; ac os na chawn ernes o hyn ar y ddaear, mewn cariad a chydymdeimlad a'r brodyr, er yn gwahaniaethu yn eu tybiadau crefyddol, onid ocs achos amheu na feddwn y grefydd a arddelir yn nydd y cyfrif? oblegid gellir gofyn yn ddifrifol i bawb a obeithiant am ddedwyddwch y nef, Pa le mwy annedwydd, gwag ac anhyfryd, na Nef y Gogoniant i'r hwn sydd yn fyr o gariad at y trigolion a wladychant yno? Bydd y iaith yn hollol ddieithr, ac o ganlyniad nid allai y gyfeillach fod yn llai na phoenfa i'r estron amharotoedig.

Mewn gair, nid yw y nefoedd ond mwynhad, i'r enaid rhydd a santeiddiedig, o Dduw, yn unol a'i briodoliaethau, ac ychwanegiad o rwymau cariad ac undeb yspryd â bodau rhagorol yn yr Orphwysfa dragwyddol "o olwg yr Arglwydd."

Pa fodd gan hynny y bydd mwynhad yma o'r hyfrydwch difesur a fedda y preswylwyr, heb undeb yspryd a chydgordiad?

Ysgrifen-fedd mewn mynwent yn Italy.—Yma gorwedd Estalla, yr hwn a drosglwyddodd olud mawr i'r nefoedd mewn gweithredoedd o elusengarwch, ac y mae yn awr wedi myned i'w fwynhau.

SYLWADAU AR ACTAU II. 33, 37, 38.

Atebion i ofyniadau Crydd y Llety yn yr Ymofynydd *am Gorph.*, *tud.* 168.

Mewn ateb i G. y Ll. dymunaf sylwi mai ar y dysgyblion y rhai y dywedir yn Actau i. 15, *eu bod yn nghylch ugain a chant o nifer*, yr arddangosir yr Ysbryd Glân fel yn cael ei dywallt ar ddydd y Pentecost. Iddynt hwy yr ymddangosodd y "tafodau gwahanedig megys o dân;" hwy oeddynt y rhai a lefarent "megys y rhoddes yr Ysbryd iddynt ymadrodd." Pan aeth y son am hyn allan, daeth y lliaws o'r rhai a "drigent," neu yn hytrach *a arosent ar y pryd* yn Jerusalem ynghyd, a chawsant eu "trallodi," neu eu dyrysu gan synodd, am fod pob un o honynt yn clywed y dysgyblion yn "llefaru yn ei iaith ei hun."

Nid effeithio troedigaeth y *dysgyblion* oedd amcan tywalltiad o'r *Ysbryd Glân*, oblegid yr oeddynt hwy wedi eu troi yn flaenorol. Nid awn i ohlhain yr amcan yn y lle hwn, gan nad oes alwad am hyn. Mewn ateb i'r *gof.* 1 ynte, yr wyf yn methu a gweled un gwrthdarawiad rhwng y dyb gyffredin "taw yn *fewnol* y mae yr Ysbryd Glân yn gweithredu er cadwedigaeth pechadur" a diwedd adn. 33, "Efe a dywalltodd y peth yma yr ydych chwi yr awrhon yn ei weled ac yn ei glywed;" gan y dangosir yma yn amlwg mai yr effaith a *gafodd* yr hyn a "welsent ac a glywsent" ar y rhai a drowyd yma oedd eu cyffroi i ystyriaeth a phryder meddwl, "Hwy a ddwysbigwyd yn eu calon," h.y., gwnaed hwy i deimlo pigad calon neu *ofid meddwl*; gwnaed hwy yn drwmlwythog eu calon. Nid y dysgyblion, cofier, eithr y rhai ag oeddynt wedi bod yn dystion o'r amgylchiadau cynhyrfus a wnaed y dydd hwnw trwy y dysgyblion, a'r rhai trwy yr hyn a "welsent ac a glywsent," a ddygasid i sobrwydd a difrifoldeb meddwl. Nis gall dim fod yn fwy *newnol* na'r hyn a ddysgrifir yma â'r geiriau, "dwysbigwyd yn eu calon."

Dyna *gof.* 2*il* wedi ei ateb mewn rhan. Nid gwir edifeirwch *oedd* y dwysbigiad; nid oes yma yr un sail i gasglu hyny, ar wyf yn weled. Nid oedd ond y cam cyntaf tuag at edifeirwch. Rhagbarotoai hwy trwy ddifrifoli eu meddwl a'u tywys i ymofyn pa peth oedd iddynt yn mhellach i'w wneyd.

Mae ateb *gof.* 3*ydd* yn awr yn waith rhwydd. Gan nad oedd y "dwysbigiad" ond rhagbarotoawl i edifeirwch, nid oes dim yn fwy rhesymol na bod Pedr yn eu hanog i fyned yn nes yn mlaen, "Edifarhewch," h.y., bydded i'ch gofid presenol gael ei ddilyn gan gyfnewidiad yn eich dull o feddwl ac o fyw; "ymadnewyddwch yn yspryd eich meddwl" ac arweiniweh fuchedd dda "er maddeuant pechodau," neu mewn trefn i chwi yn y dyfodol allu ymattal oddiwrth bechod, neu adael heibio i bechu, neu fwrw oddiwrthych eich pechodau. Yma, fel mewn manau craill yn y Testament Newydd, mae "edifeirwch a maddeuant pechodau" yn cael eu henwi gyda'u gilydd; ac yn ol yr ystyr hwn, pa un, yn ol barn dysgedigion enwog, a ddylai gael ei roi bob amser i'r gair "maddeuant," mae rheswm cryf ac amlwg dros y cysylltiad: ymnewidiwch, fel y bo i chwi ymadael o hyn allan â'ch pechodau, a byw bywyd newydd, a chael mewn canlyniad deimlo yn eich calon ddylanwadau rhad-roddol santaidd Yspryd y Goruchaf, trwy gymdeithas ysprydol ag ef. Ac yn arwydd o'r cyfnewidiad dan sylw, gweinyddid bedydd.

Gan obeithio rhydd y sylwadau hyn foddhad, ac yn ddiwg genyf i'r gofyniadau ddianc sylw hyd yn rhy hwyr i'r rhifyn diweddaf.

Ydwyf, &c.,

W. T.

O.Y.—Nis gallaf weled pa fodd y medr C. y Ll. ystyried gweithrediadau yr Ysprvd trwy y "gweled a'r clywed ac *arayhoeddiad y deall*" yn *an* fewnol neu allanol. Deil pawb, dybygwn, mai *mewnol* yw y gweithrediad, er y gall *cyfryngau* y gweithrediad fod oddiallan i ddyn.

DR. JOSEPH PRIESTLEY.

Mr. Gol.,—Gan fy mod wedi gweled yn ddiweddar yn un o rifynau'r Ymofynydd rywun yn gofyn am ychydig o hanes y Parchedig Ddr. Joseph Priestley, a chan nas gwelais hyd yn hyn neb yn ymgymeryd a'r gorchwyl o ysgrifenu hanes dyn mor fawr a nodedig,—dyn ag y mae ei glod wedi cyrhaedd yn mhell ac yn agos, am ei wybodaeth eang yn mhob canghen o ddysgeidiaeth, ag am ei ymdrechiadau diflino yn nhaeniad ag helaethiad gwybodaeth grefyddol; mi ymdrechaf gyflawni ei ddymuniad (os gwelwch hyn yn gymhwys) trwy wneuthur rhyw ddifyniad o'r hyn ag y mae wedi ysgrifenu am dano ei hun, gan obeithio y bydd o fudd i ddarllenwyr yr Ymofynydd yn gyffredinol.

Ydwyf yr eiddoch yn ostyngedig,

Awst 17*eg*, 1860. Gwynnen.

HYNAN-FYWGRAFFIAD.

Fy nhad, Jonas Priestley, oedd fab hynaf Joseph Priestley, gwneuthurwr brethynau. Ei wraig gyntaf, sef fy mam, oedd unig blentyn Joseph Swift, ffermwr yn Shafton, pentref oddeutu chwech milldir i'r deheu ddwyrain o Wakefield. O'r wraig hon y cafodd chwech o blant, pedwar mab a dwy ferch. Myfi, yr hynaf, a anwyd ar y 13eg o Fawrth, 1733, yn Fieldhead, oddeutu chwech milldir i'r de-orllewin o Leeds, yn Sir York.

Bu farw fy mam yn 1740, ac fe briododd fy nhad eilwaith yn 1745, ac o'i ail wraig efe a gafodd dair merch.

Gan fod fy mam yn cael plant yn aml, mi gefais fy nghosod yn fuan iawn dan ofal fy nhadcu, sef tad fy mam, lle y buais hyd ei mharwolaeth. Ychydig wyf yn gofio am fy mam. Ond yr wyf yn cofio ei bod yn ofalus iawn i ddysgu i mi "Wyddoreg y Gymmanfa" (*Assembly's Catechism*) ynghyd a rhoddi i mi yr addysg oreu am yr ychydig amser y buais gartref.

Yr wyf yn cofio unwaith yn neilldnol, pan yr oeddwn yn chwareu â phin bychan, iddi ofyn i mi pa le yr oeddwn wedi ei gael; a phan y dywedais fy mod wedi ei gael yn nhy fy ewythr, yr hwn oedd yn byw yn agos iawn i dy 'nhad, a pha le yr oeddwn wedi bod yn chwareu gyda'm cefnderwyr, hi a barodd i mi ei ddwyn ef yn ol drachefn; er argraffu ar fy meddwl, yn ddiamheu, y gwahaniaeth mewn perthynas i feddiant, a'r pwysfawrogrwydd mawr o dalu sylw i hyny.

Hi a fu farw yn y gauaf caled 1739, nid yn hir ar ol genedigaeth fy mrawd ieuengaf: hi a freuddwydiodd ychydig cyn ei mharwolaeth ei bod mewn rhyw le hyfryd iawn, yr hwn oedd hi'n ddesgrifio ac yn dychymygu

mae'r nefoedd oedd; a'r geiriau diweddaf a ddywedodd, meddai fy modryb wrthyf, oeddynt, "Gadewch i mi fyned i'r lle hyfryd yna."

Ar farwolaeth fy mam mi gefais fy nghymeryd adref, a'm brodyr yn cymeryd fy lle; ac mi gefais fy nanfon i ysgol yn y gymydogaeth.

Ond gan fy mod heb fam, a theulu mawr o blant gan fy nhad, fe ddarfu i'w chwaer, yn 1742, fy nghymeryd i atti, gan ofalu am danaf fel plentyn iddi ei hun, canys nid oedd gyda hi yr un ei hunan. Hi a fu yn rieni anwyl i mi o'r amser yma hyd ei mharwolaeth yn 1764. Yr oedd fy modryb yn briod ag un Mr. Heighley, dyn hynod am ei sel dros grefydd a'i yspryd haelfrydig. Yr oedd yn werth cryn lawer o feddiant. Bu farw yn fuan wedi i mi fyned attynt; ac a adawodd y rhan fwyaf o'i eiddo i fy modryb dros ei bywyd, a llawer hefyd iddi i'w drefnu fel ag y byddai yn dewis ar ol ei mharwolaeth.

Mi gefais fy nanfon i amrywiol ysgolion yn y gymydogaeth gan y fenyw wir dduwiol a rhagorol hon, yr hon ni fedrai ddefnyddio ei chyfoeth yn well na thrwy wneuthur daioni; ac yn hyn nid arbedodd ei hun, ac yn neilldnol, anfonwyd fi dan ofal offeiriad o'r enw Mr. Hague, pa le, yn nghylch 12 a 13eg oed, y dechreuais wneuthur ychydig gynydd gyntaf yn yr iaith Lladin, ac y dysgais elfenau Groeg. Ond ynghylch yr amser y dechreuais ddysgu Groeg yn yr ysgol hon, mi ddysgais Hebraeg yn y gwyliau gan weinidog Annibynol y lle, o'r enw Mr. Kirkby; ac ar symudiad Mr. Hague o'r Ysgol Rydd, yr agorodd Mr. Kirkby ysgol ei hun, lle yr oeddwn yn hollol dan ei ofal.

Trwy'r addysgiadau hyn yr oeddwn wedi cyrhaedd gwybodaeth gweddol dda o'r ieithoedd dysgedig erbyn yr oeddwn yn 16eg oed. Ac o'r amser hwn dechreuodd iechyd Mr. Kirkby waethygu, yr hyn a barodd iddo roddi'r ysgol heibio; ac felly mi gefais innau ddilyn fy nyfyrdodau gartref fel y gallwn, hyd nes i mi gael myned i'r Coleg yn Daventry, yn y flwyddyn 1752.

(I'w barhau.)

Y GWIR YN ERBYN Y BYD.

DAMMEG AM PAUL.

Un diwrnod cafodd Abdiel Paul yn Nharsus, ar ol ei daith i Damascus, yn eistedd yn addfwyn a meddylgar wrth ddrws ei dŷ; gorweddai ei lyfrau dewisol ac offer ei grefft yn annhrefnus o gylch. "Clywais newydd rhyfedd am danat ti," meddai y Rabbi llyfndew. "Yr wyt tithau wedi myned i ganlyn y Nazaread! Pa lwybr a fydd i ti ei gymeryd mewn canlyniad i'th droedigaeth werthfawr?" "Af i bregethu yr efengyl i'r holl genedloedd," attebai y dysgybl newydd. "Dechreuaf ar fy nhaith y foru."

Edrychodd y Rabbi, yr hwn a deimlai fath o ddyddordeb sur yn Paul, arno, gan ffugio golwg o anghrediniaeth, a dywedodd, "A wyddost ti yr aberth a wnai? Rhaid i ti adael tad a chyfeillion, a chymdeithas y mawr a'r doeth. Cei weled byd caled a chwrdd a pheryglon. Ei yn dlawd; difenwir di; cei dy erlid, dy ffiangellu; feallai dy roi i farwolaeth." "Nid oes un o'r pethau hyn yn fy nghyffroi," meddai Paul. "Yr wyf wedi bwrw y draul. Ni phrisiaf am fy hoedl haner cymaint ag am gadw cyfraith Duw, a chyhoeddi'r gwirionedd, er i bob dyn wahardd i mi. Mi a rodiaf yn ngoleuni

Duw, ac nid ofnaf. Nid wyf mwyach yn gaethwas i hen gyfraith pechod a marwolaeth, ond yn ddyn rhydd i Dduw, wedi fy rhyddhau gan ddeddf yspryd y bywyd yn Nghrist Iesu." "Yma," meddai y Rabbi, "y mae genyt esmwythyd a chlod; yn dy waith newydd cei oddef llafur, gwaradwydd ac angen." "Mai llais Duw yn dweyd, 'Cerdda,' meddai yr Apostol gyda chadernid; "yr wyf yn foddlawn treulio ac ymdreulio yn achos y gwirionedd."

"Bydd farw ynte," rhuai y Rabbi, "fel ffwl o Nazaread, ac *Atheist* anghrediniol, o'r fath ag wyt. Mae yr hwn sydd yn blysio ar ol pethau newyddion, gan roi y flaenoriaeth i'w argyhoeddiadau ffolion ac i fympwy ei gydwybod, ar esmwythyd diogel a chynghorion ei gyfeillion, yn haeddu y groes. Bydd farw yn dy ynfydrwydd. O hyn allan yr wyf yn dy ddiarddel. Na alw fi yn berthynas i ti ond hyny."

Aeth blynyddoedd heibio. Gair yr Arglwydd a gynyddodd ac a ymgadarnhaodd. Un diwrnod aeth y sibrwd allan yn Nharsus, a rhedodd yn gyflym o enau i enau, "Mae Paul y gwrthgiliwr mewn cadwynau yn Rhufain, yn dysgwyl bob dydd cael ei daflu i'r llewod. Ei drallod nesaf fydd ei un olaf." A dywedai Abdiel wrth ei hen gyfeillion yn y synagog, "Mi a wyddwn o'r goreu mai dyna fuasai'r diwedd. Pa faint gwell fuasai iddo i gadw wrth ei grefft, ac aros yn hen ffyrdd ei dadau a'r prophwydi, heb falio am fympwy ei gydwybod. Gallai fyw yn anrhydeddus i gyrhaedd henaint esmwyth, yn Nharsus, yn dad i feibion a merched. Gallasai dynion yn awr ei gyfarch, Rabbi, ar yr heolydd."

Fel hyn yr oedd hi yn Nharsus. Ond yn y cyfamser, yr oedd Paul yn eistedd yn gysurlawn yn ei ddaiargell yn Rhufain. Safodd yr Arglwydd yn ei ymyl mewn gweledigaeth, a dywedodd wrtho, "Nac ofna, Paul. Yr wyt wedi ymdrechu ymdrech deg. Wele, yr wyf fi gyda thi hyd ddiwedd y byd." Atebodd yr hen Apostol yn dawel, "Gwn pwy a wasanaethais, ac yr wyf yn cwbl gredu y bydd i Dduw gadw yr hyn a roddais ato. Ni roddes Duw i mi yspryd ofn, ond yspryd nerth a chariad a phwyll. Mi a ddybenaf fy ngyrfa mewn llawenydd, canys yr wyf yn gweled coron cyfiawnder wedi ei chadw i mi; ac yn awr y mae fy iechydwriaeth yn fwy perffaith, a fy ngobaith yn uwch na phan y credais gyntaf."

Yna siaradodd yn ei galon y llais hwnw, ag oedd wedi siarad o'r blaen ar fynydd y gweddnewidiad, "Tydi hefyd wyt fy anwyl fab; ynot y'm boddlonwyd."

Gwr Lleyg.

RHESWM A CHREFYDD.—Rhif VI.

(Parhad o tudal. 154.)

Nid oes ond *un adnod*, ynte (Math. xxviii. 19, yr hon sydd gwedi bod yn awr dan ein sylw) yn y *Pedwar Efangylwr*, a debygir ei bod yn dysgu yr Drindod! Yn holl hanes yr Iesu dim ond *un* adnod y geir ag sydd yn sawrio o'r Drindod, a Thrindodiaid dysgedig yn cyfaddef nad oes Trindod yn yr adnod honno!! Drindodwr caredig! a ydwyt yn clywed yr haeriad a wneir? Yn holl addysgiadau ac ymddyddanion yr Iesu ni cheir cymaint ag *un cyfeiriad* at y Drindod—dim *cysgod* o Drindod yn y Pedwar Efangylwr!! Fe elwir ar bob Trindodwr ymofyngar a difrifol i ddal sylw ar yr haeriad

hwn. Mae yn cael ei wneuthur heb ddim petrusder, ac fe *gerid* yn fawr pe bae rhyw Drindodwr gwresog a ffyddlon yn anturio i ddangos ei fod ar fai.

Ni a awn yn mlaen at adnod y gosodir mawr bwys arni, fel yn dwyn prawf anwrthwynebol o wirionedd athrawiaeth y Drindod, sef 2 Cor. xiii. 13. "Gras *ein* Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Yspryd Glân a fyddo gyda chwi oll."

Mae Dr. Wardlaw yn gwenu yn orfoleddus wrth wynebu ar yr adnod hon! Gwedi *ymdrafferthu* yn galed iawn er ceisio cael cymaint ag *eilun* o Drindod yn yr Hen Destament a'r Pedwar Efangylwr, a methu'n deg, mae ef yn glorio yn yr adnod hon! (gwel "*Discourses*," &c.) *Mawr* yw'r *pwys* a osodir arni! Ac y mae hyn yn brawf eryn gadarn o wendid y dystiolaeth a geir yn yr Ysgrythyrau o blaid y Drindod. Beth yw cynhwysiad y geiriau dan sylw? A oes yma rywbeth yn debyg i dri o bersonau yn yr un hanfod? Yn ddiddadl mae yma son am "ras ein Harglwydd Iesu Grist," am "gariad Duw," ac am "gymdeithas yr Yspryd Glân"—geiriau a arferir gan Paul wrth ddiweddu ei Epistolau. Nid yw Crist na'r Yspryd Glân yn cael eu galw yn *Dduw* yma. Fe briodolir y gair *Duw* i'r Tad ac i'r Tad yn unig. Taer ddymuniad yr Apostol yw—"I ras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Yspryd Glân,"—yr yspryd hwnnw ag oedd yn cydfyned à gwirioneddau yr Efengyl—aros gyda'r Corinthiaid, a'u llenwi a phob gorfoledd!

Gwelir mor galed gwaith yw cael gafael ar ddim mewn rhith Trindod yn y Testament Newydd drachefn! *Dwy adnod* mae'r brodyr Trindodaidd yn anturio i gyfeirio attynt, fel yn dwyn tystiolaeth *bendant* o'r Drindod, sef Math. xxviii. a'r 2 Cor. xiii. 13. Mae Dr. Wardlaw, wrth fyned yn y blaen i nodi y profion a ddygir yn y Testament Newydd o blaid y Drindod, yn addaw cyfyngu ei hun i *un* neu *ddwy* o'r adnodau mwyaf *pendant* ar y pwnc, ac yna y mae yn sylwi ar y ddwy adnod grybwylledig!

Fe all y disylw a'r anwybodus gasglu oddiwrth y geiriau ei fod yn cyfyngu ei hun i *un* neu *ddwy* o'r adnodau *mwyaf pendant*," i fod *llawer* o adnodau yn y Testament Newydd yn dysgu'r athrawiaeth. Ond nid oes diolch i'r Dr. am "gyfyngu ei hun i'r ddwy adnod" uchod, oblegyd anhawdd iawn y byddai cael *un arall!* Doeth oedd dystewi mewn amser, a pheidio amlygu mor ddystaw yw'r Testament Newydd ar y pwnc! Gwyddai Dr. Wardlaw yn well na chyfeirio at 1 Ioan v. 7. "Oblegid y mae tri yn tystiolaethau yn y nef: y Tad, y gair, a'r Yspryd Glân; a'r tri hyn un ydynt." Gwyddai'r Dr. mai *forgery* oedd yr adnod hon, ac yr oedd yn rhy onest i amddiffyn y Drindod trwy foddion mor gywilyddus! Er i Esgob Ty Ddewi, y diweddar Dr. Burgess, lynu trwy'r dwr a'r tân wrth yr adnod uchod megys "ysgrythyr lân," yn ei ddadl â Belsham: eto, fe wyr pawb ag sydd yn gwybod dim am yr hen Esgob hwnw, druan, ei fod yn caru ac yn parchu'r Drindod, i'r fath raddau, fel nad oedd pryder arno am *natur* yr arfau a pha rai y byddai yn ei hamddiffyn—yr un peth oedd gwirioneddau pur yr Iesu a *forgery* yr oesoedd tywyllaf, yn ngolwg yr hen Esgob hwn. Gydag ef, a miloedd eraill, yr oedd y *dyben* yn sancteiddio'r *moddion!* Cadw'r "Drindod Lân Fendigaid" i'r lan—nid oes gwahaniaeth trwy ba foddion! Tebyg nas gwelir Esgob yn Nhy-Ddewi mwyach mor ddibryder a hwn mewn perthynas i'r gwirionedd! Nid oes moddion i amddiffyn yr "Ysgrythyr Lân" ond dwylaw glân. Mae'r oes yn rhy oleu i gynnal i fynu *forgeries* yn bresenol; ac mae'r *Curate* gwaelaf yn ein gwlad yn gwybod o'r goreu, yn awr, mai *forgery* yw

1 Ioan v. 7. Nis daeth un peth ffolach erioed i feddwl dyn na'r dychymyg y gallesit amddiffyu gwirioneddau'r Nef trwy dwyll ac anwiredd! Pan y dynoethir *y modd* y mae'r Drindod gwedi chael ei hamddiffyn, hyd yn hyn, yna hi a syrthia i'r un cyflwr a chyfeiliornadau ereill! Mae y dydd yn nesâu "y daw pob gwir o'i rwymau'n rhydd."

Safed yr Undodwr ei dir! Mae'r deallus a'r gwybodus, yn mhob gwlad, yn gwirio ei brif athrawiaethau! "Un Duw a Thad oll, a holl ddynolryw yn frodyr" yw tystiolaeth amlwg natur a datguddiad! Ac fel y mae yr Athrawiaeth ogoneddus hon yn gwawrio ar wahanol wledydd y byd, y mae dynoliaeth, brawdgarwch, rhinwedd, a daioni, yn ffynu, a gwyneb y ddaear yn dyfod yn fwy tebyg i wyneb y Nefoedd! *Mawr* yw cwyn yr *uniawn-gred* (yn eu meddwl eu hunain) o bob plaid ac enwad, yn y dyddiau presenol, o herwydd y gŵyriad *crchyll* ac *helaeth* ag sydd yn cymeryd lle yn mhob eglwys a chapel yn ein gwlad! Fe achwynir yn alarus i fod y gweinidogion ieuainc, braidd i gyd, yn ymddyeithrio oddiwrth yr "hen syniadau iachus," ac yn dynesu yn agos iawn at "*Sociniaeth!!*" Gwir yw fod miloedd yn llaesu eu gafael yn y Drindod, yr haeddiant a'r pechod gwreiddiol, &c., ac yn glynu yn dyn ac yn wresog wrth athrawiaethau pur yr Efengyl. Ni saif dim, pen draw, yn erbyn y gwir. "Y gwir yn erbyn y byd," fydd llef gydseiniol holl blant Duw, ond iddynt adnabod eu Tad, yn ei holl ddoethineb, a'i gariad, a'i ddaioni! Ychydig bach o oleuni a yrra yn mhell dywyllwch mawr; ac mae *undod* a phriodoliaethau Duw yn dyfod yn fwy amlwg, fel ag y mae goleuni a gwybodaeth yn cynhyddu.

Rhodd oreu y Nef yw *gwirioneddau*; a gelyn gwaethaf dyn yw *tywyllwch!* Bydded i ddarllenwyr yr Ymofynydd fod yn *ymofynwyr* gwirioneddol, ac yna hwy a fyddant megys "dinas gwedi ei gosod ar fryn yr hon nis gellir ei chuddio,"

Awst 20, 1860. D. Lloyd.

MADDEUANT PECHODAU—YSTYR GEIRIAU HEZECIAH, ESAY XXXVIII. 17.—Rhif I.

Dywed ein Harglwydd Iesu Grist, "fod y *llythyren* yn lladd; ond mai yr yspryd sydd yn bywhau." Pob ymadrodd nad yw yn trosglwyddo dryche-feddwl dealladwy, llythyren *farw* ydyw: ac unrhyw ymadrodd, o ba le bynag ei ceir, a fyddo yn arwain y meddwl i ddychymyg yr hyn sy'n anghyson â gwirioneddau sicr a phwysig, llythyren *sy'n lladd*, ydyw.

Ac yn rhy fynych, fel mae gwaetha'r modd, mae hyd yn oed geiriau yr Ysgrythyr, trwy gael eu cyfleu maes o'u hamgan a'u gwir ystyr, yn cael eu gwneyd yn offerynol i rwystro rhai o brif amcanion dadguddiad Dwyfol. O'r fath, debygem ni, yw y dywediad y sylwodd J. F., Cwmavon, arno, yn ei adroddiad o bregeth (Rhifyn Mehefin, tudal. 143); sef, *bod Duw yn taflu pechodau dynion tu ol i'w gefn;*—ymadrodd, o'i gymmeryd heb esponiad, nas gellir cael dychymyg iddo, heb golli pob meddwl am Dduw. Am hyny, nid ymddengys fod "J. F." maes o'i le pan y mae yn dywedyd, "Yr wyf yn methu deall pa le yw hwnw sydd tu ol cefn yr holl-bresennol Dduw."

Gellir dywedyd nad oedd un achos i "J. F." gymmeryd y geiriau yn llythyrenol: mai yn ei amgyffrediad gwan ef oedd y dyryswch i gyd; mai *maddeu* y pechodau a feddylid wrth fod Duw yn eu "taflu tu ol i'w gefn."

Ond os cywir yr adroddiad (ac nid oes neb hyd yma wedi cwestiyno ei gywirdeb) mae'n amlwg mai nid hyny oedd yn meddwl y llefarwr: neu yr hyn lleiaf, mai maddeuant *ammodol* yn unig ydoedd—rhywbeth *upon future account*; oblegyd, er taflu y pechodau ailan o'r golwg, yr oeddent ar gael o hyd ac yn ysgrifenedig yn erbyn y duwiolion, ac i aros felly hyd nes byddai i "bin yr Yspryd Glân gael ei drochi yn ngwaed y groes, a chroesi'r llyfrau.

Dichon y fath ddarlunuad fod yn gywraint ac yn darawiadol, ac o bosibl yn dderbyniol gan lawer o'r gwrandawyr; ond y mae yn eithaf anghyson a character Duw, fel Barnwr cyfiawn a Thad y trugareddau; ac yn trosglwyddo drychfeddyliau am dano ewbl annheilwng o'i fawredd gogoneddus. Dichon hefyd ei fod yn eithaf cyson à chyffes ffydd y corph o Fethodistiaid; ond nid oes iddo yr un sail yn yr hanes a roddir yn y Bibl am ymddygiad Duw tuag at dduwiolion yr Hen Destament.

Yno darllenwn fod Duw "yn *hoffi* trugarhau," ac *yn* maddeu i'r edifeiriol dychweledig, ac hefyd yn gweinyddu cosp a cherydd am bechod; ond dim gair am faddeuant *upon future account*. Ac am "drefn fawr yr achub," yn ol Calfiniaeth, yn ofer y ceisir sail iddi yn y Bibl; y mae ei tharddiad o le arall. Sier mai dyma ydoedd trefn Duw, fel y dysgai ei broffwydi gynt. "Gadawed y drygionus ei ffordd a'r gwr anwir ei feddyliau; a dychweled at yr Arglwydd, ac efe a gymmer drugaredd arno, ac at ein Duw ni, oblegyd efe a arbed yn helaeth."

Nid y'm yn dysgwyl y bydd pob un sy'n darllen yr Ymofynydd o'r un farn â ni ar y pwne. Mae'n debyg fod un gohebydd parchus (tud. 168) o'r farn nad oedd y Doctor yn dyweyd ar fai mor belled ag yr oedd yn "arferyd iaith yr Ysgrythyr." Wrth gwrs nid oedd, wrth hyn, yn cyfeirio at fod "pin yr Yspryd Glân i gael ei drochi yn ngwaed y groes a chroesi'r llyfrau;" ond yn unig at y geiriau fod "Duw yn taflu pechodau tu ol i'w gefn;" y mae yn cyfeirio at eiriau Hezekiah (Esay xxxviii. 17.) fel siampl. "Canys ti a deflais fy holl bechodau tu ol i'th gefn."

Dyma yr unig fan yn y Bibl lle y dywedir fod Duw wedi gwneuthur felly. Ond iaith *ysgrythyr* ydyw! A rhaid addef fod y geiriau yn gyfieithiad llythyrenol o'r Hebraeg—rhy lythyrenol yn ein golwg ni. Bydd cyfieithu yn llythyrenol, air yn ngair, o un iaith i iaith arall, weithiau yn gwneud cam â'r synwyr, neu yn trosglwyddo drychfeddwl nad oedd yn meddwl yr ysgrifenydd: megys cyfieithu *lladd gwair* yn *kill hay*; neu y Saesnaeg "*I can not understand what is spoken*" i'r Cymraeg, "Nis gallaf *sefyll dan* yr hyn a lefarir."

Pa fodd bynag, mae yr Ieithiaduron Hebraeg (Lee a Gesenius, a Rosenmüller hefyd) yn cyttuno mai yr hyn a feddylir wrth y frawddeg "taflu tu ol cefn," *hishlik acharei gavo*, yw, taflu *allan o'r golwg*, neu o'r cof, *maddeu*; neu *esgeuluso*, *diystyru*. Tair gwaith y defnyddir y frawddeg yn yr ystyr olaf, i ddarlunio ymddygiad yr annuwiol tuag at Dduw a'i gyfraith, 1 Bren. xiv. 9; Neh. ix. 26; Ezec. xxiii. 35. Gwrthod yr Arglwydd a'i ddiystyru, yngwydd y wlad, wnaeth Jeroboam fab Nebat, a "gwneud i Israel bechu" gydag ef. Diau mai dyna i gyd feddyliai'r Prophwyd ddywedyd. Ond beth pe bae llefarwr gwir ddysgedig, wrth adrodd gweithredoedd y brenin drygionus hwnw, i ddywedyd ei fod, ymhlith pethau eraill, wedi "taflu yr Hollalluog tu ol i'w gefn;" beth feddylid am ei chwaeth, heb son am feddwl parchus am yr Holl-bresennol Mawr? A fyddai yn ddigon o gyfiawnhad, i ddywedyd fod y cyfieithiadau awdurdodedig, Cymraeg a Saesonaeg, yn rhoddi

gair yn ngair, fel y mae yn yr Hebraeg wreiddiol? Sier nas byddai.—Cymaint a hyn am gadw at y llythyren serch colli'r yspryd.

Ond i ddychwelyd at yr adnod dan sylw.—Pa bechodau oedd y rhai a faddeuwyd i'r Brenin duwiol Hezeciah, trwy ei adferiad i iechyd? Ai troseddiadau moesol, y rhai oeddent yn pwyso yn drwm ar ei gydwybod? Nage, tybiwn. Ond gwrandawn ar beth a ddywed ef ei hun yn ei weddi ar Dduw, adn. 3. Dywedasai y Prophwyd wrtho, "Trefna dy dŷ, canys marw fyddi." Yna gweddiodd Hezekiah, "Attolwg, Arglwydd, cofia yr awr hon i mi rodio ger dy fron mewn gwirionedd, ac a chalon berffaith, a gwneuthur o honof yr hyn sydd dda yn dy olwg." Nid oes le i gasglu oddiwrth ei eiriau ef, nac ychwaith oddiwrth ei "Ysgrifen, pan glafychasai, wedi hyn, a byw o hono o'i glefyd;" fod y Brenin dan bwys o euogrwydd am bechodau personol; eithr y gwrthwyneb. Y mae yn wir yn achwyn mewn modd teimladwy am drymder a phoenusrwydd ei glefyd, ond ar yr un pryd yn ymostwng i drefn Duw; ac yn yr adnod dan sylw y mae yn diolchgar gydnabod trugaredd Duw yn ei waith yn adferyd ei iechyd, neu, yn ol y dyb gyffredin a'r dull Hebreig o lefaru am y fath amgylchiad, am faddeuant o'r pechodau a dybid fod yr afiechyd yn gosp am danynt. Dyna oedd y dyb, mae'n debyg, yn amser Hezekiah, ac oddiar hyny i lawr hyd amser Crist. Onite, ni fuasai y dysgyblion yn gofyn, am y dyn dall o'i enedigaeth, pa un ai hwnw neu eu rieni a bechodd, am ei eni ef yn ddall. Dysgodd yr Iesu iddynt fod y dyb oedd ganddynt ynghylch y peth yn gyfeiliornus. Ond cymaint oedd y dyb wedi ymglymu a'r dull Iuddewig o lefaru, fel yr oedd yr Iesu ei hun wrth iachau y claf o'r parlys ac eraill, mewn modd gwrthiol, yn dywedyd: "Ha fab!" nid "iachawyd di o'th glefyd;" eithr, "Maddeuwyd i ti dy bechodau: cyfod i fyny dy wely a rhodia."

Mae esboniad Rosenmüller ar yr adnod i'r pwrpas; ac fel y canlyn: "Sensus igitur est, *oblivioni † tradidisti* peccata mea, quorum poena erat morbus quâ me affecisti; i. e., benignitate tuâ valetudinem amissam recuperavi."—pa. 795. vol. 3.

Hyny yw, "Yr ystyr gan hyny yw hyn: Ti a deflaist i anghof fy mhechodau, cospedigaeth am ba rai oedd y clefyd a ddygaist arnaf; h. y., O'th drugaredd adferwyd fi i'r iechyd a gollaswn."

I beidio blino y darllenydd, gorphwyswn bellach am hyn o dro, gan obeithio cael caniatad i ddychwelyd etto at y pwnc mewn llaw.

I.

TEILWNG I'W EFELYCHU.

Unwaith yr wyf yn cofio i rai pobl cul-feddwl ei gynnulleidfa (Dr. Doddridge) i roddi gofid nid ychydig iddo o herwydd gwr-bonheddig ag oedd mewn cymmundeb a'r eglwys, yr hwn oedd Ariad proffesedig, a'r hwn oedd mewn pethau eraill wedi ymadael a safbren *(standard)* cyffredin uniawnffyddiaeth. Yr oeddent yn dymuno naill ai i gau allan y gwr-bonheddig hwn oddiwrth ordinhad Swper yr Arglwydd, neu ynte i attal ei bresenoldeb ar ei weinyddiad; ond dywedodd y Doctor yr aberthai efe ei le, ac hyd yn od ei fywyd, yn hytrach na gosod unrhyw nod o angbefnogiad *(discouragement)* ar un a ymddangosai yn wir Gristion, gannad beth oedd ei syniadau athrawiaethol.—Dr. Kippis in Biog. Brit. vol. v. p. 307. Gwel Unit. Prin. confirmed &c. gan J. Wilson, tud. 109.

APPEL AT RESWM.

Mr. Gol.,—Bydd yn dda gennyf os gwelweh yn gymmwys i roddi lle, mewn rhyw gongl o'ch cyhoeddiad, i'r cyfleithiad canlynol allan o'r *Christian Reflector*. Mae yr ysgrifenydd gwreiddiol, a'r rhan fwyaf feallai o'i ddarllenwyr cyntaf, erbyn hyn, wedi myned i ffordd yr holl ddaear. Ond y mae yr "Appel at Reswm" yn parhau i fod mor rymus a chymmaint i'r pwrpas ag erioed.

M.

Y Deist a'r Cristion.

Supposwch fod y Deist yn iawn, ac nad yw Cristnogaeth ond twyll yn unig, pa faint y mae'r Deist ar ei enill?—pa faintais sydd ganddo? A ydyw efe yn *fwy dedwydd* na'r Cristion?—Nac ydyw. A ydyw efe yn *fwy defnyddiol* mewn cymdeithas?—Nac ydyw. A ydyw efe yn alluog i edrych ymlaen i'r dyfodol gyda mwy o dawelwch meddwl?—Nac ydyw. Ei ddedwyddwch penaf yw dilyn y melus chwantau mwyaf gwael. Y mae ei gydwybod yn ei boeni yn feunyddiol. Y mae ei gylch cymdeithasol yn anialwch wedi ei dyfu drosodd â drain. Ynfydrwydd perffaith yw ei fywyd: ac am ei farwolaeth, gellir dywedyd, "Y mae yn marw fel y mae ffol yn marw."

Ond y mae'r Cristion yn ddedwydd ynddo ei hun, neu yn ei Iachawdwr; y mae yn *ddefnyddiol* yn ei ddydd, ac y mae mor ddiogel *o'r hyn lleiaf* yn ei farwolaeth, a neb o blant Adda.

Ond supposwch fod y Deist yn *cyfeiliorni*, a bod Crist'nogaeth yn *wir* (a gwir y'i ceir), yna onid oes gan y Cristion fantais? Onid yw efe yn enillwr yn bresenol ac yn dragywyddol? Ydyw. Y mae ganddo gyflawnder parhaus o ddedwyddwch oddiuchod—a chyfaill anghyfnewidiol yn ei Iachawdwr a'i Brynwr, i'r hwn y geill efe agor ei feiddwl yn rhydd—y mae ganddo gymmorth ynghanol ei holl drallodion—sail sier am y gobaith mwyaf cadarn—a golygfa hyfryd tudraw i'r bedd.

Nid yw'r Cristion yn anturio *(hazard) dim*—y mae yn enill pob peth!!! Y mae'r Deist yn anturio, ie, y mae yn fforffedu pob peth, ac nid ydyw yn enill dim; tra y mae'n byw, y mae yn gwneuthur ei hunan yn offeryn Diafol; a phan y mae yn marw, y mae yn dysgwyl am ddiddymiant, ond yn cael damnedigaeth.

"Duwioldeb sydd fuddiol i bob peth, a chanddi addewid o'r bywyd y sydd yr awrhon, ac o'r hwn a fydd."

At Olygydd yr Ymofynydd.

Syr,—Ydwyf yn ddarllenwr cyson o'ch misolyn gwerthfawr oddiar ei ailgychwyniad. Nis gallaf lai na diolch i'r boneddwr hwnnw a'i dododdi yn fy'm llaw gyntaf; o herwydd fy mod wedi casglu trysorau a phorlau gwerthfawr ar faes yr Ymofynydd sydd ddigon i fy ngalluogi bellach i weithio'm ffordd allan o blith yr anllythrenol.

Carwn yn fawr gael ychydig o eglurhad trwy gyfrwng yr Ymofynydd ar bwnge ag sydd yn dywyll iawn i mi. Pa beth sydd mewn cyfansoddiad dyn (yn ei gorph ac yspryd) yn tebygoli i'w Greawdwr? Gen. i. 26, 27.

Byddaf yn ddiolchgar iawn am y sylw lleiaf. Dewi.

Dowlais, Awst 14, 1860.

[Y mae "Dewi," ddigon debyg, yn gwybod rhywbeth am yr hen ddadl ynghych "matter and spirit," fel ei gelwid. Nid y'm yn meddwl ei fod am adnewyddu y ddadl honno ar faes mor gyfyng ag eiddo'r Ymofynydd.

Po felly buasai yn gwahaniaethu yn fwy manwl rhwng "corph ac yspryd."

Ond cymerwn fod ei ofyniad yn golygu *dyn* yn yr *oll* o'i gyfansoddiad, fel y mae yn ryfedd-waith gallu a doethineb dwyfol—gan nad o ba ddefnydd neu ddefnyddiau. A gadael dadleu ynghylch pethau nas gwyddom ond ychydig neu ddim am danynt; ond golygu cyfansoddiad "dyn" fel y mae yn ymgynnyg i'n sylw; yn ei berthynas â'r ddaear a'i helfenau, ac a'r byd anifeilaidd, ac hefyd yn ei alluoedd deallawl a moesol, ymddengys y gofyniad yn bur hawdd i'w atteb; a hyny gyda chyfeiriad neilldiol at y geiriau yn y benod gyntaf o Genesis, lle y dywedir i "Ddaw greu dyn ar ei lun a'i ddelw ei hun."

Ac yn laf, y mae yn amlwg mai nid mewn "llun" neu ffurf corphorol y mae y tebygolrwydd yn gynnwysedig. Nis gall fod yr un gydmariaeth nac un tebygolrwydd rhyngddo a Duw yn yr ystyr hyn, "Canys Yspryd yw Duw"—Bod anweledig, holl-bresenol, a thragywyddol. Nid yw y cyfeiriad at "lûn a delw" yr Anweledig, ddim ond iaith ffiguraidd; fel hefyd geiriau eraill o'r Ysgrythyr lle y sonir am "fraich," "llygaid," neu "enau yr Arglwydd," &c., pa rai a raid eu deall fel *dull dynol* o lefaru am briodoleddau neu weithrediadau yr Anfeidrol mawr.

2. Y mae yr un mor amlwg, debygir, mai gallu deallawl yw y peth hwnw yn nghyfansoddiad dyn, sydd yn ei "wneud yn debyg i'w Greawdwr." Nid yw y tebygolrwydd, mae'n wir, ond mewn grâdd, fel pob peth arall a berthyn i fod meidrol. Ond ei fod yn wirioneddol sydd ffaith a addefir gan bob un sydd yn credu yn modoliaeth Duw, ac wedi cyrhaeddyd y grediniaeth oddiwrth ganfod profion o drefniad deallus yn y greadigaeth. Dyma'r peth sydd yn dyrchafu dyn uwchlaw y greadigaeth anifeilaidd; dyma hefyd y gadwyn sydd yn ei dynu yn nes at ei Grewr. Gellir gweled hefyd oddiwrth y cyssylltiad mai hyn ydoedd yn ngolwg yr Ysgrifenydd Sanctaidd; sef y peth hyny ag sy'n gallnogi dyn i "arglwyddiaethu ar bysg y mor, ac ar ehediaid y nefoedd, ac ar yr holl ddaear." Yn awr gallu deallawl sy'n gallnogi dyn i wneuthur hyn. Dyma sydd yn eu alluogi i ganfod cyfreithiau natur, ac i wneud elfenau y byd allanol a'r greadigaeth afresymol yn wasanaethgar i'w amcanion. Gwna i'r dwfr a'r tân, a sylwedd y felltcu danllyd fod yn weision iddo ac yn genhadau buain, i drosgludo ei negesion a'i fwriadau hyd bellafoedd byd. Ond pa eisiau amlhau siamplau? Mewn gair hyn sydd yn gallnogi dyn i fod, dan Dduw, yn fath o Arglwydd ar y ddaear isod.

3. Ymddengys hefyd mai nid priodoledd neu allu moesol feddylir yma. Ceir hyny, modd bynnag, nid trwy gyfansoddiad parod, eithr trwy addysg a profiad, ac yn enwedig trwy râs Duw yn Iesu Grist.

Gwnawd y sylwadau hyn—nid i attal neu rwystro attebion; ond yn hytrach i agor y ffordd.—GOL.]

Hanesion Cartrefol a Thramor.

Y SENEDD.—Y mae mesurau anhebgorol y llywodraeth yn cael eu dwyn ymlaen trwy y ddau Dŷ gyda phob brys. Cyn y bydd y rhifyn hwn yn nwylaw y darllenydd bydd yr Eisteddfod bresennol, ddigon tebyg, wedi ei therfynu. Bu amryw cynnygiadau pwysig dan ystyriaeth, pa rai oeddent wedi crëu cryn ddisgwyliad trwy'r wlad, a llawer o areithio arnynt, —pa rai, naill a ddaethant i'r dim, neu ynte a gawsant eu tynu yn ôl a'u gohirio, o achos bod yr amser wedi cyrhaedd mor bell. Mae'r cytundeb masnachol â Ffrainc, yn rhyw fodd, wedi sefyll ei dir, ynghyd â'r trefniadau a wnaed mewn cyssylltiad âg ef, oddieithr ysgrif Dilêad y dreth ar bapur, yr hon, yn groes i'r drefn arferol, a wrthodwyd gan yr Arglwyddi. Darfu i Dŷ y Cyffredin weled yn gymmwys i bassio heibio y sarhâd am y tro hwnw, gyda'r rhybudd, na oddefir y fath beth etto. Y frwydr olaf rhwng y pleidiau a gymmerodd le ar y 6fed o Awst. Amcan y blaid wrthwynebol ydoedd di-sodli Mr. Gladstone yn matter arall, nid o bwys mawr, ynghylch treth ar bapur. Ond er pob ymdrech methwyd yn yr amcan. Yr oedd namyn un pum

eant wedi cael eu dwyn ynghyd, ac ar raniad y Tŷ, cafwyd fod mwyafrif o 33 o blaid Mr. Gladstone.

Benthyg arall.—Dydd Gwener yr 17eg, (mewn *Committee of Ways and Means*) deisyfodd y Canghellwr (Mr. Gladstone) ganiatâd i feuthyca £2,000,000 trwy Exchequer Bonds, i'w talu yn mhen chwe mlynedd. Dywedodd mai ei reswm dros ofyn hyn o ganiatâd ydoedd yr argoel ddrwg sydd ar y cnydau, a'r tebygolrwydd o gynhauaf diffygiol. Gyda golwg ar y symau a ganiatawyd (yn y *Ways and Means*) tuag at wasanaeth y wladwriaeth—votwyd £70,100,000 yn mis Chwefror; £3,300,000 at y Rhyfelgyrch Chineaidd; £2,000,000 o achos yr amddiffyniadau, a £1,000,000 at dalu Exchequer Bonds, y rhai ydynt ar ddyfod yn ddyledus; yn gwneuthur y cyfanswm o £76,400,000.

Y Llys.—Mae'r Frenhines a'r Tywysog Gwaddoledig wedi myned i fwynhau'r tymor, fel arfer, yn Mhalas Balmoral yn Scotland. Gwnawd ymddangosiad rhwysgfawr gan y *Rifle Corps* Ysgotaidd yn Edinburgh mewn *review* o flaen y Frenhines. Mae y mudiad hwn er amddiffyn y wlad mewn taraw, wedi dyfod bellach yn bur boblogaidd trwy yn mron bob cwr o'r wlad. Ac nid oes gymaint o siarad ag a fu yn Ffrainc am y possiblrwydd o ymosodiad a'r Ynys Brydain.

Darfu Tywysog Cymru gyrhaeddyd y Drefedigaeth yn Canada, yn iach ac yn ddiogel. Tiriodd yn St. John's ar y 24ain o Orphenaf. Y mae y Newyddiaduron yn llawn o adroddiadau o'r ymddangosiadau gorfoledus a chalonog a wnaed, o anrhydedd a groesawiad, yn y gwahanol ddinasoedd y bu yn ymweled. Y mae wedi cyflawni y gorchwyl penodedig hefyd; sef, agor y Bont fawr (*Victoria Bridge*) sydd yn croesi yr afon St. Lawrence. Rhwng cyfarfodydd cyfarchiadol yn y prifddinasoedd, gwleddoedd, a *Balls*, ac ymweled a golygfeydd rhyfeddol y rhan hono o'r Byd Newydd, mae'r Tywysog wedi bod mewn llawn waith.

Trwy ei bresenoldeb serchog, a boneiddgarwch a gweddeidd-dra ei ymddygiad, dywedir, ei fod wedi enill serch y trefedigion yn gyffredinol, a'r trefedigesau yn neilltuol. Nid yw yn debyg yr â yr ymweliad hwn yn anghof ar y Tywysog nac ar drefedigion Canada. Yn ein rhifyn nesaf, tebyg, gallwn roddi peth o hanes ei dderbyniad croesawus yn yr Unol Daleithiau—lle y bydd yn ymdeithio, fel Boneddwr yn unig, dan y teitl, Baron Renfrew.

Y Cyfandir.—Er fod rhyfel, ar hyn o bryd, yn gyfyngedig i ddeheudir Italy, y mae sefyllfa pethau trwy y cyfandir yn gyffredinol, yn parhau i fod yn ansefydlog ac ansier; yr hyn sy'n rhwystrol i bob anturiaethau masnachol, ac yn niweidiol iawn i lesiant meistri a gweithwyr yn mhob gwlad braidd, a Phrydain Fawr yn enwedig. Nid oes neb a wyr pa le y derfydd cadgyrch Garibaldi; ac ofnir y canlyniadau gyda golwg ar barhâd y perthynasau heddychol sydd yn bresennol rhwng gwahanol lywodraethau Ewrop; os heddychol hefyd y fath sefyllfa, pan y teimla'r gwledydd yn gyffredinol yr anghenrheidrwydd o fod dan arfau ac yn barod erbyn rhyfel. Ac os, fel y mae lle i ofni, yr ychwanegir at hyn gynhauaf brith neu ddiffygiol, ceir o bosibl broliad chwerw o'r drwg a'r ffolineb o wastraffu cyfoeth ar barotoadau rhyfelawl. Ond fel y mae gwaetha'r modd, hyd yn oed yn ngwledydd Crêd, ychydig o wrandawiad a roddir i "efengyl y tangnefedd."

Ffrainc.—Arwydd dda, debygid, am Ffrainc ydyw fod yr Ymherawdwr a'i briod wedi cymeryd hamdden i fyned i ymweled â'r cyfoeth newydd, *Savoy* a *Nice*, ac â'r drefedigaeth yn Algeria. Ond y mae o bwys i nodi, fod Gorchymyn Ymherodrawl (*Imperial Decree*) newydd gael ei gyhoeddi ar fod porthladdoedd Ffrainc i fod yn agored am dymor, a chaniatâu fod ŷd, a ddygir mewn llongau o wledydd eraill, i gael dyfod i mewn yn ddi-dreth. Gwneir hyn, gallwn fod yn sier, nid oddiar egwyddor ac o gariad at Rydd Fasnach—eithr oherwydd y cymhwysder a'r angenrheidrwydd o'r peth, a chydâ golwg neilltuol ar ddiffygioldeb y cynhauaf, a'r tebygolrwydd o brinder ymborth. Y mae hyn eisioes wedi effeithio ar farchnad yr ŷd yn Llundain, ac achosi cryn gwnad yn mhrisoedd gwenith a grawn eraill.

Awstria a Hungary.—Mae yr awdurdodau Awstriaidd wedi bod yn ceisio gwneud rhyw beth mawr o'r cyfundeb a wnaed rhwng Tywysog Llywodraethol Prwssia ac Ymherawdwr Awstria, yn eu cyfarfod yn Töplitz tua dech-

reu y mis diweddaf, yr hyn mynant roi ar ddeall ei fod yn dra ffafriol i Awstria. Ond nid ymddengys fod dim yn sicr yn mhellach na bod Prwssia wedi addaw cymhorth iddi i amddiffyn ei thiriogaethau yn erbyn gwrthryfel ac yn erbyn ymosodiad allanol, ar yr ammod fod Awstria i ganiatâu i'w deiliaid y fraint o lywodraeth gynrychiolaethol (*representative government*). Ac fel pe bae i'r perwyl hyn, y mae Awstria yn ddiweddar wedi galw ynghyd Gynghorfa Ymherodrawl (*Imperial Council*) cynnwysedig o wŷr penaf Hungary a'r taleithiau eraill, y rhai ydynt yr awr hon gyda'u gwaith yn Vienna. Ofnir nas bydd y cynnygiadau gwellhaol y fath ag y bydd yr Hungariaid i foddloni iddynt. Bernir nad oes dim ond diwygiad trwyadl ac adferiad o'u hen freiniau, a all attal gwrthryfel yn Hungary.

GARIBALDI YN NAPLES.—Mae Garibaldi o'r diwedd wedi llwyddo i dirio yn Calabria, y dalaeth ddeheuol o Naples, efe a'i fyddin, ac y mae miloedd o'r trigolion wedi uno ag ef. Y maent wedi ymosod ar amddiffynfa Reggio ac yn gwarchae arni. Tebyg eu bod erbyn hyn wedi ei chymeryd. Mae pob argoelion y cyst i'r Brenin Francis gilio, a myned i Vienna, lle y mae Ymherawdwr Awstria wedi addaw dderbyniad a nodded iddo ef a'i deulu.

SYRIA.—Mae y galanastra echryslon a wnawd yn ddiweddar gan y Druses ar Gristionogion Syria, wedi cynhyrfu cydymdeimlad a digllonedd trwy holl wledydd Cred. Darfu cynrychiolwyr y prif bŵerau yn Ewrop weled yn gymmwys i gyfarfod mewn cynnadledd ar y matter, yn Paris, lle y cyttunwyd ar fod cynhorthwy i gael ei anfon i'r Sultan er adferyd heddwch yn ddioedi, a chospi y drwgweithredwyr—ac ar y cymhwysder o ddyfeisio moddion er gochelyd y fath aflywodraeth a thrychineb yn ôl llaw.

Mae yr amgylchiadau oeddent yn cydfyned â'r gyflafan wedi dangos, nad cenfigen etifeddiaethol rhwng y ddau lwyth, y *Druses* a'r *Maronites*, y rhai a gydbreswyliant yn Lebanon, oedd yr unig achos o'r drwg. Gallodd yr awdurdodau Tyrkaidd á'u milwyr edrych yn dawel ar y Maronitiaid yn cael eu llofruddio yn ddiarbed, a'u hysbeilio o'r cyfan; gallent berswadio y Cristnogion i roddi fynu eu harfau, dan addewid o nodded a diogelwch, ac yna eu gadael i fod yn ysglyfaith parod i'w gelynion gwaedlyd. Yr hyn sydd yn cadarnhau y farn, fod cyngrair helaeth rhwng ffanaticiaid Mahometanaidd, y rhai a sychedent am gyfleusdra i daraw ergyd mewn ymddial ar Gristnogion. O'r tu arall y mae cyfiawnder yn gofyn cofnodi, ddarfod i'r hen Abd-el-kader ac eraill o Fahometaniaid Damascus ddangos ffyddlondeb a charedigrwydd neilldiol i'r Cristnogion yn eu cyfyngder. Buont, trwy eu gwroldeb, yn offerynol i achub bywydau cannoedd a miloedd. Darfu'r Sultan, hefyd, yn ddioedi anfon milwyr i Syria dan Fuad Pasha, er gosod terfyn ar yr aflywodraeth ac i ddal a chospi'r troseddwyr. Ac y mae y Pasha yn myned ymlaen a'r gwaith gyda llwyr benderfyniad. Hyspysir fod cannoedd lawer eisoes mewn dalfa, y rhai ydynt yn aros eu prawf; ac y mae'r drwgweithredwyr eraill wedi cael achos i wybod fod dydd o ddial yn eu haros hwythau. Yn y cyfamser y mae byddin gref o Ffrancod wedi myned drosodd i Syria, ynghyd âg amryw longau rhyfel o Loegr.

MARWOLAETH.

Awst 5ed, ar ol hir nychdod, bu farw Jenkin Jenkins, o Drecynon, Aberdâr, yn 32 oed, mab i Evan Richard Jenkins. Dydd Mawrth canlynol yr ymgynullodd torf luosog yn nghyd i'w hebrwng i dŷ ei hir gartref. Claddwyd ef yn mynwent yr Hen-dy-cwrdd; a phregethodd y Parch. J. Jones, gweinidog y lle, ar yr achlysur.

Yr oedd yr ymadawedig yn hoff iawn o gerddoriaeth, ac yn bur ddefnyddiol gyda'r canu yn y lle uchod oddiar yn ieuanc.

Ond yn awr y mae e'n huno,
Yn nyfnderau oer y llawr;
Gorwedd mae yn dawel yno,
Hyd yr adgyfodiad mawr.
Byr, ansicr yw ein bywyd;
Byddwn barod ar bob pryd,
Am nas gwyddom 'r awr na'r fynyd,
Cawn ein galw bawb o'r byd.

Trecynon. D. J.

CYFARFOD CWARTEROL YR HYDREF, YN Y CRIBYN, CEREDIGION.—Yn ôl y drefn arferol, cynhelir y cyfarfod uchod ar y Mercher a Iau cyntaf ar ôl Gŵyl Mihangel—Hydref y 3ydd a'r 4ydd.

Barddoniaeth.

HIRAETH MAM.

Goludog oedd fy mynwes, blentyn mad,
Pan oeddit ti ei phenaf stor;
Mil llai goludog mynwes mor
Sy'n llwythog o drysorau llawer gwlad.

Dedwyddaf ddydd a'th roddodd gynt i mi,
Ac ynot ail ddechreuais fyw;
Gobeithion o ddysglaeriaf ryw
A aned ar yr awr y ganed di.

Pan oedd y lleill o'r teulu'n ddiwyd draw,
Ei waith a'i ofal gan bob un,
Ni theimlwn fy mod wrth fy hun,
Dy anwyl egwan ffurf oedd fyth gerllaw.

Dy lais arianaidd, trwst dy fywiog gam
A oedant eto ar fy nghlyw;
Pob gwrthrych prydferth darlun yw
O'i hanwyl blentyn i ddychymyg mam.

Trwy'r dydd yr wylaf, hunaf yn yr hwyr
Mewn breuddwyd i'th gofleidio di;
Addewi beidio 'ngadael i—
Ond ffy'r hudoliaeth gyda'r wawr yn llwyr.

Mae'th hoff deganau mewn dyogel le,
Ni chaiff dim gyffwrdd a hwynt-hwy,
Yn gyssegredig byddant mwy,
Fel pe i'th ddysgwyl di yn ol i dre'.

O lan dy fedd rhy wan oedd golwg ffydd
I weled, trwy y gafod ddagrau ddu,
Yr amryliwiog enfys cu,
Oedd arwydd y caem eto gwrdd ryw ddydd.

Ond erbyn heddyw cefais nerth o'r nef,
Er maint yr hiraeth dan fy mron,
Ces nerth i ymdawelu'n llon,
Ac i gydnabod ei drugaredd Ef.

G——.

PENILLION I'R BLODAU.

Mi af i'r ardd i roddi tro,
Eisteddaf dan yr yw;
Man addas im' gael meddwl am
Weithredoedd dwylaw Duw,

Ac O! 'r olygfa gyntaf ddaw
Yn destun i fy mryd,
Fydd syllu ar y blodau tlws
Sydd newydd dd'od i'r byd.

Y lili hardd sy'n codi'i phen,
Briallu sydd gerllaw,
Fel pe'n ymdrechu dod yn nes
I gydymysgwyd llaw,

Rhosynau fyrdd o goch a gwyn,
A phinc, sydd ar y coed;
Aroglant drwy yr awel fwyn,
Ni chefais well erioed.

Fan arall gwelaf "lygad dydd,"
A thlysau am ei ben,
Yn ymddysgleirio megys sêr
Yn awyr las y nen.

Porphoraidd ac ysgarlad rhai—
Amryliw oll heb feth;
Ac etto nis gall angel byth
I ganfod dau 'run peth.

O flodau cain! mae bydoedd o
Brydferthwch ynoch chwi,
Yn dangos gallu'r llaw a'ch gwnaeth—
'Gynhalia ein daearen ni.

Ei law ef luniodd haul y nef,
Seraphiaid, deulu iach;
A'i law fawr Ef a wnaeth 'run modd
Y siriol flodyn bach.

Esponiad ydyw'r blodyn hardd
O einioes frau pob dyn,
Sydd heddyw'n llawn o swyn a serch,
Ond 'fory'n wael ei lun.

SAMUEL C. JONES—
(Alarch Craig y Llyn).

ENGLYNION

a gyfansoddwyd a'r Bore'r dydd Byraf, 1859.

Heddyw bore'r dydd byraf—mae oerni
Trwm arnom y Gauaf;
Ond cyn hir yn deg cawn Haf
Hyd ddiwedd y dydd hwyaf.

ARALL.

Ar amser gyfyng marwolaeth.

O! boed i bawb wybodaeth—i gofio
Awr gyfyng Marwolaeth!
Rhyw och! yw i bob rhyw chwaeth
Dynu elyn dynoliaeth.

I'R YMOFYNYDD.

Mae o fewn i'r YMOFYNYDD—iaith deg,
Pethau doeth a chelfydd;
Amcanion er mwyn cynnydd,
A llais rhad ewyllys rydd.

Merthyr, WILLIAM MORGAN,—
Gor. 3ydd, 1860. Gwilym Gelli deg.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.